Adnoddau Cynllunio Sector Gyhoeddus yng Nghymru:
Adroddiad cryno

Chwefror 2026

RTPI Cymru
Royal Town Planning Institute
Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI)

Mae’r RTPI yn hyrwyddo pŵer cynllunio i greu lleoedd llewyrchus a chymunedau bywiog. Mae gennym dros 27,000 o aelodau yn y sectorau preifat, cyhoeddus, academaidd a gwirfoddol. Gan ddefnyddio ein harbenigedd a'n hymchwil rydym yn dod â thystiolaeth ac yn arwain agweddau i lywio meddwl a pholisïau cynllunio, gan roi'r proffesiwn wrth wraidd dadleuon mawr cymdeithas. Rydym yn gosod y safonau ar gyfer cynllunio addysg ac ymddygiad proffesiynol sy'n rhoi gallu unigryw i'n haelodau, lle bynnag y maent yn gweithio yn y byd, i wynebu heriau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cymhleth. Ni yw'r unig gorff sy’n rhoi statws Siartredig i gynllunwyr, y cymhwyster proffesiynol uchaf, y mae cyflogwyr yn y sectorau preifat a chyhoeddus yn chwilio amdano.

Mae RTPI Cymru yn cynrychioli'r RTPI yng Nghymru, gyda thua 1,300 o aelodau.

Ynglŷn â’r papur hwn

Comisiynwyd yr ymchwil hwn gan Lywodraeth Cymru, a’i wneud gan RTPI Cymru. Mae'n cwmpasu'r adnoddau a'r capasiti presennol yng ngwasanaethau cynllunio'r sector cyhoeddus yng Nghymru, gan ddarparu sylfaen dystiolaeth gyfredol i lywio a llunio ymyriadau ac atebion yn y dyfodol.

Mae'r ymchwil yn cwmpasu'r 25 Awdurdod Cynllunio Lleol, Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC), Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru a swyddogaethau Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy'n gysylltiedig â chynllunio.

Crynodeb o adroddiad ‘Adnoddau Cynllunio’r Sector Cyhoeddus yng Nghymru’ yw’r papur hwn.

Awduron yr adroddiad

Mark Hand MRTPI, Cyfarwyddwr Proffesiwn, Rhyngwladol, Cymru a Gogledd Iwerddon

Rhian Brimble MRTPI, Swyddog Polisi, Ymarfer ac Ymchwil RTPI Cymru

Archie Closier, Cynorthwyydd Polisi Cynllunio RTPI Cymru

Olivia Gibson, Dadansoddwr Polisi a Data RTPI

Georgina Nee, Cynorthwyydd Polisi Cynllunio RTPI Cymru

Diolchiadau

Mae RTPI Cymru yn ddiolchgar am fewnbwn pawb a gymerodd ran yn yr ymchwil hwn, yn enwedig cynrychiolwyr Awdurdodau Cynllunio Lleol, PCAC, CNC ac Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru, a gyfrannodd ddata, safbwyntiau, syniadau ac amser sylweddol i'r prosiect. Diolch hefyd i gynrychiolwyr y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, aelodau Fforwm Ymgynghorwyr Cynllunio Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ac ysgolion cynllunio prifysgol achrededig RTPI am eu cyfraniad at lunio'r drafodaeth a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

Hoffem ddiolch i Candice Coombs a Sarah Toomer o Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru am eu harweiniad wrth gynnal yr ymchwil hwn.

Gwybodaeth bellach

Am ragor o wybodaeth am gynnwys yr adroddiad hwn, cysylltwch â Rhian Brimble MRTPI, Swyddog Polisi, Ymarfer ac Ymchwil rhian.brimble@rtpi.org.uk

Delwedd y clawr: Delwedd gan Satheesh Sankaran o Pixabay

Cynnwys

Ynglŷn â'r papur hwn 1
Awduron yr adroddiad 2
Diolchiadau 2
Gwybodaeth bellach 2
1. Cyflwyniad 5
Cefndir a chyd-destun 5
Diben ac amcanion 5
Cwmpas a methodoleg 5
2. Ymchwil a thystiolaeth bresennol 6
3. Cyllidebau 9
Cyllidebau Awdurdodau Cynllunio Lleol 9
Cyllideb PCAC 18
Cyllideb CNC 19
4. Gweithlu presennol 20
Gweithlu'r Awdurdod Cynllunio Lleol 20
Gweithlu Adran Gynllunio Llywodraeth Cymru 24
Gweithlu PCAC 27
Gweithlu CNC 28
5. Recriwtio 32
Recriwtio a chadw o fewn ACLlau 32
Dulliau hysbysebu swyddi 33
Recriwtio a chadw staff PCAC: 34
6. Cyflogau 35
Cyflogau cynllunio y DU 35
Cyflogau cynllunio yng Nghymru 36
Cymharu cyflogau'r sector cyhoeddus a'r sector preifat 36
7. Gweithlu'r dyfodol a chynllunio ar gyfer olyniaeth 39
Proffil oedran y sector cyhoeddus 39
Proffil oedran CNC 41
8. Sgiliau a chapasiti 42
Sgiliau a chapasiti ACLlau: 42
Nodi a mynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau a chapasiti 43
Defnydd presennol o gydwasanaethau 67

Defnydd presennol o wasanaethau ymgynghori 68
ACLl: Cyllidebau hyfforddi 68
Adnoddau i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig 70
Sgiliau a chapasiti Adran Gynllunio Llywodraeth Cymru 71
Sgiliau a chapasiti PCAC 71
Sgiliau a chapasiti CNC: 73
9. Tyfu'r proffesiwn 74
Ysgolion cynllunio 76
Prentisiaethau a bwrsariaethau yng Nghymru 77
10. Gwasanaeth cynllunio effeithiol: ein casgliadau 79
11. Argymhellion 83
Argymhelliad 1: Sefydlu seinfwrdd 83
Argymhelliad 2: Sefydlu Gwasanaeth Gwella Cynllunio i Gymru 83
Argymhelliad 3: Diffinio'r gwasanaeth cynllunio 84
Argymhelliad 4: Casglu a chyhoeddi data cynllunio o ansawdd 84
Argymhelliad 5: Datblygu strategaeth recriwtio a chadw staff 85
Argymhelliad 6: Cydwasanaethau 86
Argymhelliad 7: Cynllunio Digidol 87

1. Cyflwyniad

Cefndir a chyd-destun

1.1. Un o'r heriau mwyaf sy'n effeithio ar ddarparu gwasanaethau cynllunio yng Nghymru yw adnoddau: ariannol a phobl. Bu trafodaeth helaeth dros y degawd diwethaf mewn perthynas ag adnoddau cynllunio yng Nghymru. Fodd bynnag, hyd yn hyn rydym wedi yn ddiffygiol yn nhystiolaeth gadarn a'r trosolwg cyflawn i gefnogi nodi'r atebion sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r broblem hon.

1.2. Mae Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru (Is-adran Gynllunio LIC) wedi comisiynu RTPI Cymru i gasglu tystiolaeth ar adnoddau cyfredol, capasiti ac anghenion y dyfodol o fewn gwasanaethau cynllunio'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae ein hymchwil yn cwmpasu'r Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau), Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC), swyddogaeth gynllunio Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru.

1.3. Adroddiad cryno o adroddiad llawn ‘Adnoddau Cynllunio’r Sector Cyhoeddus yng Nghymru’ yw hwn.

Diben ac amcanion

1.4. System gynllunio sydd â'r adnoddau priodol yw mecanwaith allweddol y Llywodraeth ar gyfer creu lleoedd iach, cynhwysol, cynaliadwy yn economaidd ac yn amgylcheddol. Mae'r ymchwil hwn yn nodi bylchau a heriau presennol o ran cyllid ac adnoddau, yn ystyried gofynion a sgiliau cynllunio'r gweithlu yn y dyfodol, a lle bo'n bosibl, yn awgrymu atebion posibl a allai leddfu pwysau adnoddau a chapasiti i gefnogi darparu gwasanaeth cynllunio effeithiol ac ymatebol yng Nghymru.

Cwmpas a methodoleg

1.5. Cynhaliwyd yr ymchwil a'r dadansoddiad rhwng mis Chwefror 2025 a mis Tachwedd 2025. Defnyddiwyd yr amserlenni canlynol i ganolbwyntio ar gasglu data:

- Cynllunio cyllidebau a newid yn y gweithlu dros y cyfnod pum mlynedd sy'n cwmpasu'r blynyddoedd ariannol yn dechrau ym mis Ebrill 2018 i fis Ebrill 2023 (gan ddefnyddio adroddiad Archwilio Cymru yn 2019 ar Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru fel meincnod);
- Cynllunio prosesau recriwtio rhwng Medi 2022 a Mawrth 2025 (oherwydd argaeledd data hysbysebion swyddi gan The Planner Jobs);
- Anghenion a heriau cynllunio a ragwelir yn y dyfodol dros y pum mlynedd nesaf.

1.6. Nid yw'r ymchwil hwn yn archwilio perfformiad na thargedau cynllunio: bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiadau Perfformiad Blynyddol sydd wedi'u hailgychwyn. Casglwyd y dystiolaeth gan ddefnyddio adolygiad pen desg o adroddiadau a data allweddol, arolygon a chyfweliadau.

1.7. Mae ein hadroddiad yn gorffen gyda saith argymhelliad.

2. Ymchwil a thystiolaeth bresennol

2.1. Gwnaethom adolygiad bwrdd gwaith o ymchwil berthnasol allweddol a amlygodd y prif faterion canlynol:

2.2. Mae adroddiadau Gwerth Cynllunio 2014 a 2016 RTPI, Pecyn Cymorth Gwerth Cynllunio Cymru 2018, a'r Premiwm Cynllunio: Gwerth Lleoedd Da (2024) yn canfod y gall cynllunio chwarae rhan gadarnhaol a rhagweithiol mewn twf a datblygiad economaidd cynaliadwy, a'i fod yn gwneud hynny. Mae ymchwil 2024 yn archwilio'r achos Adenillion o Fuddsoddi ar gyfer buddsoddiad y sector cyhoeddus mewn cynllunio.

2.3. Tynnodd Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cymru Gyfan ar gyfer y flwyddyn ariannol yn dechrau ar 2 Ebrill 2018 sylw at y gwydnwch a ddangoswyd gan ACLlau ac ymgyngoreion statudol, gan nodi eu "dyfalbarhad yn erbyn cyni" (tudalen 65). Cydnabuwyd cydwasanaethau rhanbarthol fel ffordd bosibl o wneud y gorau o'r

arbenigedd sydd ar gael a gwella effeithlonrwydd. Nodwyd cynllunio ar gyfer olyniaeth a recriwtio fel pryderon allweddol.

2.4. Mae adroddiad 2019 Archwilio Cymru ar Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru yn nodi realiti llym toriadau yng nghyllidebau'r ACLlau dros y cyfnod o 10 mlynedd rhwng 2009 a 2019, gyda chyllidebau wedi gostwng £22m (50%) mewn termau real. Daeth adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Senedd Cymru 2020 ar Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru i'r casgliad bod "Cynllunio yn hollbwysig ond ar hyn o bryd nid yw'n gallu cyflawni amcanion y Ddeddf Cynllunio, Deddf yr Amgylchedd na Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol oherwydd gostyngiad mewn adnoddau." (paragraff 12)

2.5. Canfu arolwg Sgwrs Fawr RTPI Cymru (2023) y canlynol:

- Bod 61% o'r 209 o ymatebwyr eu bod yn teimlo dan bwysau gormodol o leiaf sawl gwaith yr wythnos. Cynyddodd hyn i 74% os edrychir ar swyddogion ACLl yn unig;
- Roedd 21% o'r ymatebwyr yn teimlo dan bwysau gormodol drwy'r amser;
- er gwaethaf gweithredu o fewn amgylchiadau heriol, "gwasanaethau yn parhau i gael eu darparu a bod cynllunwyr yn ymfalchïo yn eu gwaith ac yn gwerthfawrogi'r hyn y maent yn ei ddarparu." (tudalen 4)

2.6. Canfu Meithrin Gallu drwy Gydweithio a Newid (2023) gyda llai o adnoddau, disgwyliadau cynyddol, a llai o gapasiti, na all ACLlau ar eu pen eu hunain ymateb i'r galw a roddir arnynt. Un mater allweddol a godwyd yn yr ymchwil oedd absenoldeb corff strategol yn canolbwyntio ar hyrwyddo gwelliant mewn gwasanaethau cynllunio yng Nghymru.

2.7. Mae arolygon aelodau Cyflwr y Proffesiwn RTPI 2023 a Chyflwr y Proffesiwn RTPI 2025 yn archwilio profiadau cynllunwyr yng Nghymru, gan roi cipolwg ar brofiadau gyrfa, cynlluniau gyrfa, llesiant a demograffeg. Mae canfyddiadau adroddiad 2025 yn dangos bod y proffesiwn cynllunio yng Nghymru yn wynebu heriau sylweddol gan gynnwys prinder staff a sgiliau, problemau cadw a recriwtio, dyletswyddau cynyddol e.e. cynllunio morol a phryderon llesiant.

> “Os gellir mynd i'r afael â heriau o amgylch cyllid, recriwtio a sgiliau, mae'r sector mewn sefyllfa dda i ysgogi'r newid i sero net yn ei flaen, gan ddarparu cartrefi fforddiadwy, a rhoi llesiant wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau. Bydd gwireddu'r potensial hwn yn dibynnu ar rymuso cynllunwyr i wneud yr hyn y maent wedi'u hyfforddi i'w wneud, a'r hyn y maent yn ei wneud orau: creu lleoedd ffyniannus, cynaliadwy, ac wedi'u cynllunio'n dda ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.” (tudalen 20)

2.8. Comisiynodd RTPI Cymru Brifysgol Caerdydd i ymchwilio i allu presennol ACLlau i ymwneud â chynllunio digidol yng Nghymru. Mae cwmpasu'r potensial ar gyfer cynllunio digidol i leddfu pwysau adnoddau a gwella canlyniadau cynllunio (2025) yn canfod y gall cynllunio digidol leddfu pwysau adnoddau a gwella canlyniadau cynllunio. Bydd datgloi ei botensial llawn yn gofyn am gynllun gweithredu cydlynol ledled Cymru ac arweinyddiaeth gref ar lefel Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Mae'n argymell sefydlu fframwaith llywodraethu cynllunio digidol, a llwyfan data gofodol ledled Cymru, cymhellion hyfforddi wedi'u targedu, safoni a fframwaith polisi cydlynol.

> “Drwy roi’r mesurau hyn ar waith, mae'n bosibl galluogi'r amodau ar gyfer cynllunio digidol i leddfu pwysau adnoddau a gwella canlyniadau cynllunio drwy systemau cyson, gweithwyr proffesiynol wedi'u grymuso, a phroses gynllunio sy'n fwy tryloyw, effeithlon, cydweithredol, a hygyrch.” (tudalen 8)

2.9. Ym mis Tachwedd 2024, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar gynigion ar gyfer Hyrwyddo Gwasanaeth Cynllunio Cydnerth sy’n Perfformio’n Dda, gan gynyddu adnoddau ACLlau drwy ffioedd ceisiadau cynllunio uwch.

3. Cyllidebau

Cyllidebau Awdurdodau Cynllunio Lleol

Incwm a gwariant Cynllunio ACLlau 2009 i 2024

3.1. Ers 2009, mae buddsoddiad cyhoeddus mewn gwasanaethau cynllunio yng Nghymru wedi gostwng yn sylweddol. Fel y nodwyd gan Archwilio Cymru yn 2019, rydym “wedi profi toriadau sylweddol mewn gwariant ers 2008-09 gyda chyllidebau wedi gostwng 50% mewn termau real, gan ystyried chwyddiant.” Mae’r toriadau hyn yn y gyllideb wedi digwydd ar adeg o bwysau cynyddol ar y system, wedi'i ysgogi gan ddeddfwriaeth a disgwyliadau cynyddol gan randdeiliaid, sy'n golygu bod ACLlau yn ei chael hi'n anodd cyflawni eu cyfrifoldebau statudol.

3.2. Ychydig sydd wedi newid. Mae’r data yn dangos y cyrhaeddodd gwariant net mewn termau real (wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant) wasanaethau cynllunio ei isafbwynt yn y flwyddyn ariannol yn dechrau mis Ebrill 2021, sef 55% yn llai na'r flwyddyn ariannol yn dechrau 2008, ond mae wedi cynyddu ychydig ers hynny. Roedd gwariant net yn y flwyddyn ariannol yn dechrau ym mis Ebrill 2023 (£27.6m) 43% yn is nag ym mlwyddyn ariannol mis Ebrill 2008 (£48.5m).



Ffigur 1: Gwariant net ACLl Cymru gyfan (blwyddyn ariannol yn dechrau mis Ebrill 2008 o'i gymharu â blwyddyn ariannol yn dechrau mis Ebrill 2023). Data a gyrchwyd drwy StatsCymru, Data Alldro Refeniw (Mai 2025). Dadansoddiad gan RTPI.

3.3. Mae'r data yn Ffigur 1 yn dangos y canlynol:

- Ym mis Ebrill 2008, roedd gwariant net termau real ar gyfer polisi cynllunio (glas tywyll) a rheoli datblygu (glas golau) tua £25m ill dau gyda pholisi cynllunio ychydig yn uwch. Erbyn mis Ebrill 2023, roedd y ffigurau hyn wedi gostwng i ychydig o dan £15m a £13m yn y drefn honno;
- O flynyddoedd ariannol mis Ebrill 2008 i fis Ebrill 2014, gwelodd gwariant net termau real rheoli datblygu ostyngiad sylweddol. Mae hyn yn adlewyrchu'r cyfnod rhwng y dirywiad economaidd a achoswyd gan argyfwng bancio 2008 (a'r gostyngiad canlyniadol yn incwm ffioedd ceisiadau cynllunio) a mesurau cyni sylweddol a ddaeth i rym yn 2013 i leihau costau darparu gwasanaethau;
- Mae gwariant net termau real polisi cynllunio wedi gostwng yn gyson o fis Ebrill 2008 i £12.4m ym mis Ebrill 2021. Mae mabwysiadu llawer o Gynlluniau Datblygu Lleol y gyfran gyntaf a brathiad cyni wedi arwain at dimau'n cael eu crebachu. Dechreuodd y duedd hon wella ychydig yn 2020 pan gychwynnodd llawer o ACLlau gyfran dau o CDLlau yn ystyrlon.

Cymharu cyllidebau gwasanaeth cynllunio ACLlau ar gyfer y blynyddoedd ariannol yn dechrau ym mis Ebrill 2023 â mis Ebrill 2008

Ffigur 2: Tabl yn dangos incwm a gwariant cynllunio tymor real (blynyddoedd yn dechrau mis Ebrill 2008 – mis Ebrill 2023). Data a gyrchwyd drwy StatsCymru, Data Alldro Refeniw (Mai 2025). Dadansoddiad gan RTPI.

Gwariant / Incwm	Blwyddyn yn dechrau mis Ebrill 2008	Blwyddyn yn dechrau mis Ebrill 2023	Newid
Gwariant gros	£70,854,000	£45,031,000	-£25,833,000 (-37%)
Cyfanswm incwm	£22,336,000	£17,423,000	-£4,913,000 (-22%)
Gwariant net	£48,518,000	£27,608,000	-£20,910,000 (-43%)
Incwm fel cyfran o wariant gros y gwasanaeth cynllunio	32%	39%	

3.4. Y prif ganfyddiadau o Ffigur 2 yw'r rhai rhwng y flwyddyn ariannol yn dechrau mis Ebrill 2008 a'r flwyddyn ariannol yn dechrau mis Ebrill 2023:

- Gostyngodd gwariant gros ar gyfer gwasanaethau cynllunio yng Nghymru 37%. Y prif wariant yw costau staffio;
- Gostyngodd cyfanswm yr incwm ar gyfer gwasanaethau cynllunio yng Nghymru 22%. Y prif ffynhonnell incwm yw ffioedd ceisiadau cynllunio;
- Gostyngodd gwariant net ar gyfer gwasanaethau cynllunio yng Nghymru 43%. Mewn cymhariaeth, gostyngodd gwariant net mewn termau real ar wasanaethau cynllunio yn Lloegr 20% dros yr un cyfnod (adroddiad Cyflwr y Proffesiwn – Lloegr 2025).

3.5. Daw incwm gwasanaeth cynllunio yn bennaf o ffioedd ceisiadau cynllunio statudol a osodir gan Lywodraeth Cymru, gydag incwm ffioedd ychwanegol yn ystod y blynyddoedd diwethaf o wasanaethau cyngor cyn gwneud cais statudol a dewisol.

Mae'r data'n dangos bod incwm wedi cynyddu'n araf rhwng blynyddoedd ariannol mis Ebrill 2013 a mis Ebrill 2016 ond ers hynny mae wedi gweld tuedd o ostyngiad araf.

3.6. Gall amrywiaeth o ffactorau effeithio ar incwm gan gynnwys cylchoedd economaidd, cyflwyno rheoliadau newydd (e.e. llu o geisiadau a gyflwynir cyn i ofynion Rheoliadau Adeiladu ar gyfer chwistrellwyr ddod i rym), cylchoedd CDLl a safleoedd a neilltuwyd sydd ar gael, newid deddfwriaethol (e.e. roedd cyflwyno Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ym mis Mawrth 2016 yn golygu bod prosiectau ynni adnewyddadwy maint canolig wedi symud o ACLlau i Lywodraeth Cymru), a chyfyngiadau amgylcheddol megis problemau ansawdd dŵr ffosffad a nitrad sy'n rhoi stop ar ddatblygiad yn yr ardaloedd yr effeithir arnynt.

3.7. Mae gwariant ACLlau yn bennaf ar staffio, ond gall costau apeliadau achlysurol a buddsoddiad TG gael effaith sylweddol hefyd. Mae cychwyn CDLl yn ysgogi gwariant ar y sylfaen dystiolaeth a chapasiti'r tîm. Gall y cyfnod yn union cyn ac ar ôl mabwysiadu'r CDLl ysgogi cyflwyno nifer fwy o geisiadau mawr mewn ymateb i ddyraniadau safleoedd newydd, sydd wedyn yn lleihau wrth i CDLl heneiddio a safleoedd strategol gael caniatâd.

3.8. Roedd cyfanswm incwm cynllunio Cymru fel cyfran o'i gwariant cynllunio yn uwch yn 2024 nag yn 2009, gan gyrraedd uchafbwynt o 51% yn 2022. Mae hyn yn bennaf oherwydd costau darparu gwasanaethau is. Fodd bynnag, mae ffigurau'n amrywio rhwng ACLlau unigol.

3.9. Mae'r data yn Ffigur 3 isod yn dangos bod incwm fel cyfran o wariant wedi codi o tua 30% o 2009 i 2013 i fyny i 45-50% o 2016 i 2022 ac wedi gostwng i 40% yn 2024.

3.10. Mae nifer o ymatebion i'r arolwg yn awgrymu bod y newid ers 2022 wedi bod oherwydd cydnabyddiaeth bod toriadau cyni wedi mynd yn rhy bell, gan effeithio ar berfformiad, morâl a chadw staff. Mae mynd i'r afael â hyn yn gofyn am ailfuddsoddi wrth ddechrau gweithio ar Gynlluniau Datblygu Lleol newydd, gyda gweithgaredd recriwtio yn dechrau adfer capasiti'r tîm ond yn effeithio'n andwyol ar gostau net.



Ffigur 3: Incwm ACLlau Cymru gyfan fel cyfran o wariant (polisi rheoli datblygu a chynllunio) (blynyddoedd ariannol mis Ebrill 2008 i fis Ebrill 2023). Data a gyrchwyd drwy StatsCymru, Data Alldro Refeniw (Mai 2025). Dadansoddiad gan RTPI.

Sylwadau'r ACLlau ar newidiadau cyllideb rhwng y blynyddoedd ariannol yn dechrau mis Ebrill 2018 a mis Ebrill 2023

3.11. Gofynnwyd i'r ymatebwyr esbonio unrhyw newidiadau i'r gyllideb yn eu ACLl rhwng y blynyddoedd ariannol yn dechrau ym mis Ebrill 2018 ac ym mis Ebrill 2023. Nododd hanner o'r 24 o ymatebwyr fesurau sy'n gysylltiedig â recriwtio, megis colli swyddi, gohirio recriwtio, a rhewi swyddi gwag ar draws y gwasanaeth cynllunio fel ffordd o gyfrannu at arbedion yn y gyllideb. Mewn rhai achosion, mae mesurau rhewi'r broses recriwtio neu ailstrwythuro wedi symud yr her i rywle arall yn unig, er enghraifft cynyddu llwythi gwaith a phwysau.

ACLl: Arferion arloesol sy'n cynhyrchu incwm neu'n lleihau costau darparu gwasanaethau

3.12. Mewn ymateb i doriadau i'r gyllideb, cyflwynodd ACLlau arferion arloesi i geisio cynhyrchu incwm a lleihau costau. Roedd arferion codi incwm yn cynnwys defnyddio Cytundebau Perfformiad Cynllunio, cynyddu'r cynnig o ffioedd/gwasanaethau cynllunio anstatudol fel tystysgrifau llwybr cyflym a chydymffurfio, a chyflwyno ffioedd

y cytunwyd arnynt yn rhanbarthol ar gyfer defnyddio'r 'Pecyn Cymorth Hyfywedd Datblygu'.

3.13. Roedd arferion torri costau yn cynnwys cadw swyddi'n wag, gweithio ar y cyd ag awdurdodau cyfagos i greu sylfaen dystiolaeth CCA neu CDLl, adolygu asedau tir i'w datblygu neu eu gwerthu, ymweliadau safle mwy effeithlon i leihau hawliadau milltiroedd neu ddefnyddio ceir cronfa, ac adolygu prosesau. Fodd bynnag, nid oedd y mentrau hyn heb eu problemau. Efallai na fydd arferion cynhyrchu incwm yn cynrychioli ffynonellau incwm dibynadwy, hirdymor ac mae angen y gallu i gyflawni.

3.14. Roedd safbwyntiau o ran effeithiolrwydd Cytundebau Perfformiad Cynllunio fel ffynhonnell incwm gyson a dibynadwy yn gymysg. Cysyniad Cytundeb Perfformiad Cynllunio yw bod ymgeisydd yn talu am amserlen gwasanaeth gwell sicr. Fodd bynnag, nid yw incwm y Cytundeb Perfformiad Cynllunio bob amser yn bodloni costau darparu gwasanaethau. Ar ben hynny, heb lif cyson o Cytundebau Perfformiad Cynllunio, nid oes gan ACLlau sicrwydd ariannol i gyllidebu ar gyfer cyflogi swyddogion parhaol ychwanegol.

ACLl: Incwm a gafwyd o geisiadau cynllunio

3.15. Gofynnwyd i ACLlau a oedd yr incwm a gafwyd o geisiadau cynllunio (gan gynnwys Cytundebau Perfformiad Cynllunio) yn fwy na chostau darparu'r gwasanaeth rheoli datblygu ers mis Ebrill 2018. O'r 24 ymateb, atebodd 75% 'na', gyda 12% yn nodi bod incwm wedi rhagori ar gost mewn rhai blynyddoedd (ond nid pob un), a 13% yn nodi bod hyn wedi digwydd mewn un flwyddyn yn unig.

3.16. Ymhlith y rhai a atebodd 'ydw', dywedodd 83% (pump ACLlau), yn hytrach na chael eu hailfuddsoddi mewn gwelliannau i wasanaethau, fod yr arian dros ben wedi'i ailgyfeirio i gyllideb ganolog yr awdurdod lleol i wrthbwyso pwysau cyllidebol ehangach.



Ffigur 4: Incwm a dderbynnir o geisiadau cynllunio sy'n fwy na chostau darparu'r gwasanaeth rheoli datblygu. Data a gafwyd mynediad iddo drwy arolwg ymchwil RTPI (Mai 2025).

Anghydbwysedd incwm, llwyth gwaith ac adnoddau

3.17. Dim ond cyfran fach o gostau gwasanaeth gwirioneddol y mae ffioedd cynllunio yn eu talu. Wrth edrych ar incwm cynllunio fel cyfran o wariant cyfan y gwasanaeth cynllunio, mae ein hymchwil wedi dangos bod lefel gyfartalog adennill costau ledled Cymru yn 32% yn 2009, gan gynyddu i 39% yn 2024.

3.18. Wrth edrych ar ddata adennill costau ar gyfer y gwasanaeth rheoli datblygu yn unig, mae ein hymchwil wedi dangos bod cyfartaledd Cymru gyfan yn 46% yn 2009, gan gynyddu i 56% yn 2024. Yn 2024, y lefel isaf o adennill costau oedd 31% (Sir Fynwy), tra'r uchaf oedd Wrecsam (126%). Ystyrir bod y ffigur olaf hwn yn eithriad oherwydd bod nifer o swyddi gwag yn lleihau costau darparu gwasanaethau yn artiffisial. Yr ail lefel uchaf o adennill costau yn 2024 oedd Caerdydd (118%), sy'n golygu bod yr incwm yn fwy na chostau darparu'r gwasanaeth rheoli datblygu. Mae'n werth nodi, dim ond Wrecsam a Chaerdydd a lwyddodd i adennill y costau'n llawn.

3.19. Bydd y penderfyniad i gynyddu ffioedd o 2 Rhagfyr 2025 yn gwneud cryn dipyn i helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn. Fodd bynnag, ni all incwm ffioedd ar ei ben ei hun ariannu cwmpas llawn y gwasanaeth cynllunio. Er bod yr ymgeisydd neu'r

tirfeddiannwr yn cael eu cydnabod yn eang fel prif fuddiolwr penderfyniadau rheoli datblygu, mae'r CDLl, yn ogystal â chamau gorfodi, o fudd i'r cyhoedd yn ehangach ac yn lleihau niwed. Yn yr un modd, cydnabuwyd nad oedd ffioedd cynllunio yn gwrthbwyso'n uniongyrchol y mewnbwn o gyngor arbenigol, gan gynnwys ecoleg, tirwedd, sŵn, yn cael ei wrthbwyso'n uniongyrchol gan ffioedd cynllunio ar hyn o bryd.

> “Mae’n bwysig sicrhau bod y gwasanaeth cynllunio fel swyddogaeth statudol allweddol yn cadw elfen o gyllid craidd waeth beth fo’r potensial i gynhyrchu incwm. Heb wasanaeth cynllunio gweithredol, bydd y gallu i gyflawni twf cynaliadwy a chyfraniadau ariannol Adran 106 er budd y gymuned ehangach yn cael ei rwystro'n ddifrifol. Felly, ni ddylai'r nod o [adfer cost lawn] ddileu'r angen i awdurdod lleol ariannu'r gwasanaeth yn ddigonol hefyd.” (Ymatebydd ACLl)

3.20. Er mwyn sicrhau gwydnwch a chynaliadwyedd gwasanaethau yn y dyfodol, mae angen gwneud rhagor o waith i gytuno ar ddiffiniad o faint y gwasanaeth cynllunio y mae adennill costau llawn yn berthnasol iddo (argymhelliad 3).

Gwasanaethau cyn gwneud cais

3.21. Mae'r rhan fwyaf o ACLlau yn cynnig gwasanaeth cyngor cyn gwneud cais disgresiynol gwell gyda ffi a bennir yn lleol: mae'r gwasanaeth gwell hwn yn ychwanegu cyngor gan swyddogion cynllunio ac ymgynghorai er mwyn helpu i hysbysu'r cwsmer am y tebygolrwydd o gael caniatâd cynllunio ar gyfer eu cynnig. Mae angen i ffioedd am gyngor dewisol adlewyrchu cwmpas llawn y gwaith dan sylw a'u hadolygu'n rheolaidd. Yn ddelfrydol, byddai pob ymgynghorai allweddol yn cael eu cynnwys (a'u had-dalu).

Prosesau NSIP a DNS

3.22. Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch lefel y gwaith sydd ei angen i ddarparu Adroddiadau ar yr Effaith Leol (LIRs) ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd

Cenedlaethol (NSIPs) neu Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS), y derbynnir ffi enwol amdanynt.

> “Mae cynhyrchu LIRs a rheoli’r galw gan bobl leol/aelodau ar gyfer y prosiectau hyn yn enfawr. Rhaid dod o hyd i ateb ledled Cymru drwy Gydwasanaeth sy'n rheoli'r mewnbwn cynllunio ac ymgynghoriaeth sy'n delio â'r mewnbwn arbenigol.” (Ymatebydd ACLI)

Cyllid annigonol ar gyfer gorfodi

3.23. Gorfodi cynllunio yw asgwrn cefn hanfodol system gynllunio effeithiol ond cyfeirir ati'n aml fel Sinderela'r gwasanaeth cynllunio, gan ei bod heb ddigon o adnoddau ac felly'n araf, ac yn cael ei hystyried yn aneffeithiol. Dywedodd y rhan fwyaf o’r cyfranogwyr eu bod yn cefnogi’r cynnig yn ymgynghoriad diweddar Llywodraeth Cymru i gyflwyno ffi uwch ar gyfer ceisiadau ôl-weithredol yn ogystal â ffi am gyflwyno apêl, i adlewyrchu’r costau ychwanegol a achosir gan bwrs y wlad. Nid yw'r naill na'r llall o'r newidiadau hyn yn cael eu cyflwyno ar hyn o bryd gan fod angen eu hystyried ymhellach.

ACLI: Ailfuddsoddi ffioedd yn y system gynllunio

3.24. Cyflwynwyd cynnydd mewn ffioedd ceisiadau cynllunio gan Lywodraeth Cymru ar 01 Rhagfyr 2025 ac maent yn nodi newid sylweddol a chroesawgar tuag at awdurdodau cynllunio lleol sydd â gwell adnoddau. Mae bellach yn ddyletswydd ar Gynghorau i sicrhau bod cyllid ychwanegol yn cael ei ailfuddsoddi mewn gwasanaethau cynllunio gwell.

3.25. Cefnogwyd gofyniad i ailfuddsoddi incwm ychwanegol o ffioedd ymgeisio mewn gwelliannau yn y gwasanaeth cynllunio gan 22 o ymatebwyr (92%) ac, er syndod, ymatebodd dau (8%) ‘na’. Fodd bynnag, dim ond wyth ymatebydd (33%) oedd yn credu y byddai cymorth corfforaethol o fewn eu sefydliad ar gyfer ailfuddsoddi o'r fath, roedd 14 ymatebydd (58%) yn ansicr, ac atebodd dau (8% - yr un ymatebwyr a atebodd 'na' i'r cwestiwn uchod) 'na'.

3.26. Nododd yr ymatebwyr mai eu prif flaenoriaethau ar gyfer buddsoddi incwm ffioedd ychwanegol oedd cyflogi cynllunwyr ychwanegol i hybu capasiti; creu swyddi prentisiaeth; uwchsgilio staff presennol; adnoddau ar gyfer gwasanaethau arbenigol (e.e. ecoleg/treftadaeth/niwtraliaeth maetholion); archwilio'r potensial ar gyfer cydweithio; adolygu graddfeydd cyflog rhai swyddi i gefnogi recriwtio a chadw, ac adlewyrchu pwysau llwyth gwaith; adfer a chynyddu cyllidebau hyfforddi; a buddsoddiad digidol.

Cyllideb Adran Gynllunio Llywodraeth Cymru

3.27. Ym mis Ebrill 2018, roedd cyllideb Is-adran Gynllunio LlC yn £5.2m, a oedd yn cynnwys taliadau i'r Arolygiaeth Gynllunio (PINs) am wasanaethau yng Nghymru. Ym mis Ebrill 2023, roedd y gyllideb yn £2.1m, gyda £3m pellach wedi'i drosglwyddo i PCAC i dalu eu costau gweithredu. Cynhyrchir incwm ychwanegol drwy ffioedd ar gyfer ceisiadau DNS.

3.28. Pe bai incwm ychwanegol ar gael i'w fuddsoddi mewn gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau cynllunio o fewn yr Adran Gynllunio, y flaenoriaeth uchaf a nodwyd fyddai recriwtio'r genhedlaeth nesaf o gynllunwyr ar lefel graddedig.

Cyllideb PCAC

3.29. Arhosodd cyllideb sylfaenol PCAC o £2.98m yr un fath o 2021, pan sefydlwyd PCAC, tan fis Ebrill 2023. Mae cyllideb sylfaenol blwyddyn ariannol mis Ebrill 2025 wedi cynyddu £2.03m i £5.03m i ddelio â cheisiadau seilwaith mewn modd amserol drwy staff ychwanegol a buddsoddiad digidol. Yn ogystal â ffioedd a delir gan ACLl ar gyfer archwiliadau CDLl, mae PCAC yn cael incwm ar gyfer ceisiadau DNS ac ar gyfer gwaith achos arbenigol arall e.e. apeliadau amgylcheddol, hawliau tramwy. Nid oedd ffigurau ar gael adeg ysgrifennu, ond amcangyfrifir bod yr incwm rhwng £1.0m a £1.5m y flwyddyn.

3.30. Pe bai incwm ychwanegol ar gael i'w fuddsoddi mewn gwella'r ddarpariaeth gwasanaethau cynllunio o fewn PCAC, byddai'n cael ei wario ar staff ychwanegol i gynnal gwaith achos cynyddol gymhleth a gwaith ychwanegol megis archwiliadau

CDS, a buddsoddi mewn systemau digidol ar draws llwyfannau rheoli gwaith achos i wella gwasanaeth cwsmeriaid.

Cyllideb CNC

3.31. Aeth CNC drwy ad-drefnu sylweddol yn 2019 a arweiniodd at ffurfio'r Gwasanaeth Cynllunio Datblygu Cenedlaethol a Chyngor Morol.

3.32. Roedd cyllideb net CNC ar gyfer y flwyddyn ariannol yn dechrau ym mis Ebrill 2020 yn £3.8m, gyda £3.3m ar gyfer costau staff a £0.5m ar gyfer costau nad ydynt yn gostau staff. Y cyfanswm ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ym mis Ebrill 2023 oedd £4.1m yn seiliedig ar gostau staff gyda £3.7m a chostau nad ydynt yn rhai staff o £0.4m. Mae Gwasanaeth Cyngor Cynllunio CNC yn cael ei ariannu'n bennaf gan grant LIC. O 2025 ymlaen, roedd CNC yn gallu adennill costau sy'n gysylltiedig â'i fewnbwn i Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP) a Chydsyniadau Deddf Seilwaith Cymru.

3.33. Ers mis Ebrill 2018, mae Tîm CNC Cymru wedi gweithredu newidiadau i gynyddu effeithlonrwydd yn erbyn cefndir o alw cynyddol am wasanaethau a chymhlethdod cynyddol achosion. Mae'r rhain yn cynnwys rhestrau gwirio ACLI i ganolbwyntio ymgynghoriadau; datblygu gwasanaeth cyngor dewisol sy'n ennill ffioedd i ategu gwasanaethau cyn gwneud cais statudol; a mwy o ddarpariaeth o gyngor sefydlog.

3.34. Pe bai incwm ychwanegol ar gael i'w fuddsoddi mewn darparu gwasanaethau, byddai blaenoriaethau CNC yn cynnwys cynnal safonau gwasanaeth yng nghanol cynnydd mewn prosiectau seilwaith mawr; gweithredu Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 newydd; gwella systemau TGCh fel y wefan, cronfeydd data rheoli cysylltiadau cwsmeriaid, a llwyfannau digidol sy'n delio'n uniongyrchol â chwsmeriaid; sefydlu cynllun lleoli i gynorthwyo cynllunio'r gweithlu; a darparu cyngor ac arweiniad mwy targedig er mwyn helpu i wella ansawdd ceisiadau.

4. Gweithlu presennol

Gweithlu'r Awdurdod Cynllunio Lleol

4.1. Mae'r tabl canlynol yn nodi'r data gweithlu a gasglwyd gan 22 o ACLlau a ymatebodd gan gymharu blynyddoedd ariannol 2018 a 2023. Mae angen ystyried y data sylfaenol hwn yng nghyd-destun ehangach toriadau i gyllidebau, swyddi gwag, anghenion datblygu gyrfa i'r rhai sy'n dechrau eu gyrfa, a'r dyletswyddau ychwanegol a osodir ar y system gynllunio.

	Blwyddyn ariannol yn dechrau ym mis Ebrill 2018		**Blwyddyn ariannol yn dechrau ym mis Ebrill 2023**	
	Nifer y swyddi swyddogion ACLl a gofnodwyd	**Cyfwerth ag amser llawn a gofnodwyd**	**Nifer y swyddi swyddogion ACLl a gofnodwyd**	**Cyfwerth ag amser llawn a gofnodwyd**
Swyddogion cynllunio (gan gynnwys rheoli datblygu, gorfodi a swyddogaethau polisi)	425	398.0 FTE	471	447.4 FTE
Swyddogion cymorth busnes	114	105.2 FTE	102	92.8 FTE
Cyfanswm	**539**	**503.2 FTE**	**573**	**540.2 FTE**

Ffigur 5: Nifer y cynllunwyr (polisi, rheoli datblygu a gorfodi) a swyddogion cymorth busnes a gofnodwyd gan y 22 ACLl a ymatebodd.

ACLl: Swyddogion a gyflogir yn y gwasanaeth cynllunio

4.2. Rhwng y blynyddoedd ariannol yn dechrau mis Ebrill 2018 ac ym mis Ebrill 2023, cynyddodd nifer y cynllunwyr (polisi, rheoli datblygu a gorfodi) gan y 22 ACLl a ymatebodd 46 o swyddi (11%) ledled Cymru.

4.3. Fodd bynnag, ar adeg ymateb i'n harolwg (Mai 2025), roedd 37 o swyddi cynllunwyr yn wag oherwydd trosiant staff, swyddi gwag a rhewi prosesau recriwtio. Roedd hyn yn golygu bod 73% o'r 22 o ACLlau a ymatebodd yn gweithredu gydag un neu fwy o swyddi gwag o fewn eu gwasanaeth cynllunio. Nododd 11 o ACLlau nifer o swyddi gwag, gyda rhai yn nodi cynifer â phum swydd wag bryd hynny.

4.4. Gostyngodd niferoedd staff cymorth busnes ar draws yr ACLlau a ymatebodd 12 swydd (12%) dros yr un cyfnod. O ganlyniad, mae cynllunwyr yn treulio mwy o'u hamser ar dasgau gweinyddol, sy'n lleihau'r amser y gallant ei neilltuo i'w cyfrifoldebau cynllunio craidd.

4.5. Mae'n amlwg o gymhlethdod cynyddol y system gynllunio a gofynion cynyddol defnyddwyr gwasanaethau fod angen mwy o fuddsoddiad yn y gweithlu. Teimlai 100% o'r rhai a gyfwelwyd nad oedd gan eu ACLl y capasiti ar hyn o bryd i ymdrin ag uchelgeisiau cynllunio na nodau strategol

> "Byddai'n dda cael strwythur cadarn a fyddai'n caniatáu amser i gynllunwyr profiadol hyfforddi cynllunwyr iau. Mae hynny wedi mynd ar goll gan fod pawb wedi bod yn ymdrin â heriau ers blynyddoedd ac mae'r tap o ymholiadau a cheisiadau yn parhau i lifo." (Ymatebydd ACLl)

4.6. Gyda'r adnoddau a'r capasiti ar fin torri, rydym yn argymell sefydlu Gwasanaeth Gwella Cynllunio annibynnol, dan arweiniad Hyrwyddwr Gwella Cynllunio annibynnol newydd ei greu. Yn debyg i'r gwasanaeth gwella llywodraeth leol annibynnol yn yr Alban, byddai hyn yn datblygu ac yn hyrwyddo arfer gorau ac effeithlonrwydd, yn cefnogi adolygiad gan gymheiriaid a monitro perfformiad (argymhelliad 2).

Swyddogion yr Awdurdod Lleol sy'n cefnogi'r swyddogaeth gynllunio

4.7. Er bod trafodaethau am adnoddau yn aml yn canolbwyntio ar nifer y swyddogion cynllunio, mae'r swyddogion cymorth amrywiol sy'n darparu cyngor hanfodol fel ymgyngoreion mewnol ar faterion fel ecoleg, llifogydd, priffyrdd neu dirwedd yr un mor bwysig.

4.8. Rhwng y flwyddyn ariannol yn dechrau mis Ebrill 2018 a'r flwyddyn ariannol yn dechrau mis Ebrill 2023, cynyddodd nifer y cynghorwyr arbenigol a gyflogir gan awdurdodau lleol y mae eu prif rôl yn ymwneud yn uniongyrchol â'r system cynllunio defnydd tir o ryw 5.1 swydd cyfwerth ag amser llawn ar gyfer y 22 o ACLlau a ymatebodd (o ryw 114.3 swydd cyfwerth ag amser llawn i 119.4 swydd cyfwerth ag amser llawn ar gyfer Cymru gyfan). Mae'r ffigur hwn ar gyfer blwyddyn ariannol mis Ebrill 2023 yn cyfateb i gyfanswm gweithlu cyfartalog o ddim ond 5.4 swydd arbenigol FTE fesul ACLl gan gwmpasu ystod eang o arbenigeddau. Dylid nodi bod y ffigurau hyn yn frasamcan yn seiliedig ar amcangyfrifon o gyfran y rolau hyn sy'n ymroddedig i gynllunio.

4.9. Yn ystod yr un cyfnod hwn mae'r llwyth gwaith wedi cynyddu'n sylweddol oherwydd materion, polisïau neu ddeddfwriaeth newydd fel niwtraliaeth maetholion, SDCau a Llwybr Newydd. Nododd ymatebwyr hefyd fod arbenigwyr wedi dod yn fwyfwy brysur yn cyflawni gwaith a ariennir gan grantiau er mwyn helpu i ariannu eu swyddi.

ACLl: Cydbwysedd profiad o fewn y gwasanaeth cynllunio

4.10. Roedd dwy ran o dair o'r ymatebwyr yn teimlo bod cydbwysedd da o brofiad yn eu tîm presennol. Mynegodd y traean sy'n weddill bryderon yn amrywio o ddiffyg capasiti profiadol i ymdrin â phrosiectau mwy cymhleth i bryderon ynghylch cynllunio olyniaeth wrth i staff hŷn agosáu at ymddeoliad.



Ffigur 6: Cydbwysedd profiad o fewn ACLlau sy'n ymateb. Data a gafwyd mynediad iddo drwy arolwg ymchwil RTPI (Mai 2025).

4.11. Mater a grybwyllir yn aml drwy gydol yr ymchwil hwn yw anhawster i recriwtio gweithwyr proffesiynol profiadol, a waethygir gan ganfyddiadau o gyflog ac amodau gwell yn y sector preifat a diffyg graddau gyrfa o fewn Awdurdodau Cynllunio Lleol. I'r gwrthwyneb, tynnodd rhai sylw at yr amser sydd ei angen i gefnogi a mentora gweithwyr proffesiynol gyrfa newydd fel rhwystr i dyfu'r biblinell o gynllunwyr ar gyfer y dyfodol.

4.12. Nododd sawl ACLl y gallai model swyddog hybrid neu grwydrol, sy'n symud rhwng DM, polisi a gorfodi o fewn eu ACLl, ganiatáu rheoli llwythi gwaith yn fwy hyblyg.

ACLl: Swyddi gwag

4.13. Er gwaethaf strwythurau tîm yn dangos 46 o swyddi ychwanegol ers 2018, ym mis Mai 2025, nodwyd bod 37 o swyddi swyddogion cynllunio yn wag gan y 22 ACLl a ymatebodd, ynghyd â chwe swydd arbenigol a phum swydd cymorth busnes. Mewn geiriau eraill, roedd y rhan fwyaf o'r ymdrechion i ddechrau adfer capasiti'r tîm cynllunio ar ôl dros ddegawd o doriadau yn gwbl ddamcaniaethol, gyda fawr ddim gwelliant ar lawr gwlad.

4.14. At ei gilydd, roedd 73% o ACLl yn gweithredu gyda swyddi gwag, gyda hanner o'r 22 ACLl a ymatebodd yn nodi nifer o swyddi gwag (rhai yn nodi cynifer â phum swydd wag).

4.15. Rhwng mis Medi 2022 a mis Mawrth 2025, hysbysebwyd 165 o swyddi cynllunio (rheoli datblygu, gorfodi a pholisi), 26 o swyddi arbenigol a 14 o swyddi cymorth busnes.

4.16. Mewn cyfweliadau, awgrymodd awdurdodau cynllunio gwledig a Chymraeg eu bod yn ei chael hi'n anoddach recriwtio staff. Fodd bynnag, ni nododd ein dadansoddiad o'r data unrhyw batrwm yn cysylltu dosbarthiad y swyddi gwag â gwledigrwydd na lleoliad yr awdurdod cynllunio.

4.17. Adroddodd sawl ACLlau fod swyddi gwag yn aml yn cael eu gadael heb eu llenwi fel strategaeth i gyflawni'r arbedion cyllidebol. Mae'r dull hwn yn rhoi straen sylweddol ar staff presennol a chapasiti ehangach y gwasanaeth cynllunio. Mae staff craidd cyfyngedig yn gadael awdurdodau yn agored i siociau, fel salwch hirdymor, ymddeoliad neu ymddiswyddo. Mae'n arfer cyffredin i gyllidebau sylfaenol gynnwys lwfans swyddi gwag, sy'n golygu y bydd unrhyw un sy'n ddigon ffodus i gadw nifer llawn o staff drwy gydol y flwyddyn wedi gorwario ar staff.

Gweithlu Adran Gynllunio Llywodraeth Cymru

Nifer y cynllunwyr a gyflogir yn Adran Gynllunio Llywodraeth Cymru

4.18. Ar adeg Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, roedd Adran Gynllunio Llywodraeth Cymru yn dîm o 60 o swyddogion. Erbyn 2018 roedd wedi crebachu i 41 o swyddogion, a thros y cyfnod o bum mlynedd hyd at flwyddyn ariannol mis Ebrill 2023 gwelodd ostyngiad sylweddol pellach (20%) yn nifer y staff i 33 aelod o staff. Cofnodwyd pum swydd wag ar adeg ymateb i'r arolwg ymchwil (Mai 2025).

4.19. Yn ystod y cyfnod hwn, gwelodd datblygiad gyrfa cynllunwyr presennol yn sicrhau dyrchafiadau mewn mannau eraill yn Llywodraeth Cymru, ond arweiniodd rhewi prosesau recriwtio at absenoldeb cynllunwyr gyrfa gynnar. Mae hyn wedi arwain at strwythur sy'n drwm ar y top ac yn creu heriau sylweddol wrth gynllunio ar gyfer olyniaeth yn y dyfodol.

4.20. Yn ystod y cyfnod hwn o adnoddau'n lleihau, mae maint a chymhlethdod y gwaith wedi cynyddu oherwydd mwy o ddatganoli yn ogystal â'r cymhlethdodau ehangach sy'n effeithio ar bob ACLl, megis risg llifogydd, argyfyngau hinsawdd a natur, a niwtraliaeth maetholion. Mae deddfwriaeth gynllunio, gan gynnwys Bil Cynllunio (Cymru) a Deddf Seilwaith (Cymru) 2024, yn tynnu sylw sylweddol at adnoddau'r Adran Gynllunio. Mae cyflawni gofynion polisi a deddfwriaethol a nodir yn rhaglen y Llywodraeth yn golygu bod yn rhaid i'r Adran fod yn hyblyg wrth ymateb yn gyflym i flaenoriaethau gwaith newydd neu wahanol.

4.21. Mae recriwtio allanol cyfyngedig ers mis Ebrill 2018 wedi bod yn her benodol i'r Is-adran, gan ei gwneud hi'n anodd disodli staff proffesiynol sydd wedi ymddeol neu wedi symud ymlaen i rolau eraill nad ydynt yn ymwneud â chynllunio yn Llywodraeth Cymru. Mae gan gynllunwyr ystod eang o sgiliau trosglwyddadwy sy'n eu gwneud yn ymgeiswyr cryf i'w trosglwyddo'n fewnol, ond mae'r arbenigedd cynllunio penodol sy'n ofynnol i weithio yn yr Adran Gynllunio yn golygu anaml y bydd y trosglwyddiad mewnol hwn yn cael ei ddychwelyd.

4.22. Gall y llwythi gwaith heriol a'r amlygrwydd gwleidyddol wneud yr Adran Gynllunio yn llai deniadol i gynllunwyr proffesiynol weithio ynddi nag mewn rhai Adrannau eraill. Mae cystadleuaeth gan Lywodraeth y DU a PCAC hefyd wedi dod yn elfen arwyddocaol, ac mae'r ddau ohonynt yn darparu cyflogau uwch ar gyfer rolau tebyg.

4.23. Mae cynllunio ar gyfer olyniaeth ar gyfer rolau uwch/rheoli wedi'i nodi gan y Prif Gynlluniwr fel ffocws pwysig dros y pum mlynedd nesaf, ochr yn ochr â chysoni cyflogau â Llywodraeth y DU / PCAC ar gyfer swyddi cymharol, ac archwilio swyddi â gradd gyrfa i gadw cynllunwyr o fewn yr Is-adran.

4.24. Ar hyn o bryd mae Is-adran Gynllunio LIC yn cyflogi myfyriwr blwyddyn allan ac yn gobeithio cynyddu nifer y swyddi dan hyfforddiant yn y dyfodol. Ar hyn o bryd mae hyn yn gweithio ar sail cylchdroi gyda PCAC a allai ymestyn i CNC yn y dyfodol.

Teitlau swyddi	Nifer y swyddogion a gofnodwyd yn y flwyddyn ariannol yn dechrau ym mis Ebrill 2018	Nifer y swyddogion a gofnodwyd yn y flwyddyn ariannol yn dechrau ym mis Ebrill 2023
Prif Gynlluniwr / Pennaeth yr Adran	1	1
Pennaeth y Gangen	5	6
Uwch-reolwr Cynllunio	11	7
Rheolwr Cynllunio Uwch	17	16
Rheolwr Cynllunio	5	2
Swyddog cymorth tîm	1	1
Cynorthwyydd Personol i'r Prif Gynllunydd	1	-
Cyfanswm nifer staff Adran Gynllunio LIC	**41**	**33**

Ffigur 7: Dadansoddiad tabl o swyddogion cynllunio a gyflogwyd gan Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru 2018 a 2023

4.25. Gan gydnabod y galw am weithwyr proffesiynol cynllunio a natur gystadleuol recriwtio ar draws sectorau ehangach, awgrymodd Is-adran Gynllunio LIC fod angen diffinio a hyrwyddo ar y cyd werth unigryw a manteision allweddol cynllunio fel gyrfa yng Nghymru.

Gweithlu PCAC

4.26. Mae'r tabl isod yn cyflwyno ffigurau staffio ar gyfer PCAC ar gyfer 2021 (pan gafodd ei sefydlu) o'i gymharu â blwyddyn ariannol mis Ebrill 2023. Nid oes data ar gael cyn y dyddiad hwnnw, felly nid yw'n bosibl monitro newid dros yr un cyfnod â'r cyrff eraill yn yr adroddiad hwn.

	Niferoedd swyddogion a gofnodwyd yn 2021	**Nifer y swyddogion a gofnodwyd yn y flwyddyn ariannol yn dechrau ym mis Ebrill 2023**
Prif Arolygydd/Pennaeth Cymru	1	1
Dirprwy Brif Arolygydd	-	1
Rheolwyr Arolygwyr Cynllunio	2	2
Rheolwyr Arolygwyr Cynllunio Cynorthwyol	2	2
Arolygwyr Cynllunio	15	16
Swyddogion Cynllunio	4	2
Swyddogion Cymorth Busnes	24	22
Cyfanswm nifer y staff yn PCAC	**48**	**46**
Cyfwerth ag amser llawn	**44.6**	**45.9**

Ffigur 8: Tabl yn dangos ffigurau staffio ar gyfer PCAC 2021-2023

4.27. Ym mis Mai 2025, roedd gan PCAC 30 o swyddi Swyddog Cymorth Busnes (gan gynnwys dwy swydd wag) a 20 o Arolygwyr Cynllunio sy'n cynnwys y Prif Arolygydd

Cynllunio, y Dirprwy Brif Arolygydd Cynllunio, Rheolwyr Arolygwyr Cynllunio a Rheolwyr Arolygwyr Cynllunio Cynorthwyol.

4.28. Ar hyn o bryd mae cydbwysedd da o brofiad o fewn PCAC. Fodd bynnag, mae angen Arolygwyr mwy profiadol i gefnogi meysydd llwyth gwaith pwysedd uchel, gan gynnwys DNS, archwiliadau CDLl a gwaith gorfodi, yn ogystal â pharatoi ar gyfer y pedwar CDS newydd yn y blynyddoedd i ddod, a fydd yn cael eu dilyn gan gyfres o CDLl llai manwl newydd.

Gweithlu CNC

4.29. Rhwng y blynyddoedd ariannol yn dechrau ym mis Ebrill 2020 ac ym mis Ebrill 2023, mae gweithlu CNC wedi cynyddu o 53.7 swyddog FTE i 61.2 swyddog FTE (gweler Ffigur 9 isod).

4.30. Mae tîm rheoli achosion Gwasanaeth Cyngor Cynllunio Datblygu (DPAS) CNC yn elwa o gydbwysedd cyffredinol da o brofiad a'r strwythur sy'n cefnogi llwybrau gyrfa clir. Fodd bynnag, mae recriwtio staff profiadol i swyddi gradd uwch wedi profi'n heriol, yn bennaf oherwydd bod angen arbenigedd penodol iawn. Er mwyn lliniaru prinder staff, mae CNC wedi defnyddio staff asiantaeth mewn rolau gradd is yn ogystal â cheisio datblygu staff yn fewnol, ymgyrchoedd recriwtio wedi'u targedu ac ymdrechion i ddenu ymgeiswyr o'r tu allan i'r ddisgyblaeth gynllunio draddodiadol sydd â sgiliau trosglwyddadwy. Mae'r dull hwn wedi arwain at ganlyniadau cymysg.

4.31. Mae timau Gwaith Achos Cynllunio CNC yn denu ystod eang o sgiliau arbenigol a gwybodaeth dechnegol mewn pynciau fel tirwedd, mawn, daearwyddoniaeth, risg llifogydd, ecoleg, ansawdd dŵr, gwastraff, prosesau arfordirol ac ansawdd aer.

4.32. Wrth edrych ymlaen dros y pum mlynedd nesaf, mae yna heriau a chyfleoedd. Gallai cyllid ychwanegol yn deillio o Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024 alluogi creu rolau gradd uwch, gan gynnig cyfleoedd i gadw a dyrchafu staff presennol a denu talent newydd. Fodd bynnag, mae risg barhaus y bydd staff yn ennill profiad gwerthfawr dim ond i adael am rolau mewn sefydliadau eraill lle mae gwybodaeth y sector cyhoeddus a sgiliau technegol trosglwyddadwy yn ymddangos yn boblogaidd.

Cynllunio datblygu a swyddogaeth forol (Noder: Ar gyfartaledd mae swyddogion morol yn treulio traean o'u hamser ar waith cynllunio)

Adran/Tîm	**Teitl swydd**	**Nifer y swyddogion a gofnodwyd yn y flwyddyn ariannol yn dechrau ym mis Ebrill 2020**	**Nifer y swyddogion a gofnodwyd yn y flwyddyn ariannol yn dechrau ym mis Ebrill 2023**
Gweithrediadau	Pennaeth DPAS a Morol	1	1
	Rheolwr DPAS	1	1
	Uwch-arbenigwr	1	1
	Arweinydd Tîm DPAS	4	4
	Uwch-gynghorydd DPAS	11	11 (2 swydd wag)
	Cynghorydd DPAS (2)	21	24 (4 swydd wag)
	Cynghorydd DPAS (1)	5	8 (1 swydd wag)
	Cynorthwyydd DPAS	4	4 (1 swydd wag)
	Rheolwr Morol	1	0

Adran/Tîm	Teitl swydd	Nifer y swyddogion a gofnodwyd yn y flwyddyn ariannol yn dechrau ym mis Ebrill 2020	Nifer y swyddogion a gofnodwyd yn y flwyddyn ariannol yn dechrau ym mis Ebrill 2023
	Arweinydd Tîm Cyngor a Rheoli Ardal Forol	1	1
	Uwch-gynghorydd Morol	9 (8.1 FTE)	10 (c. 9.2 FTE)
	Cynghorydd Morol (2)	2 (1.4 FTE)	10 (c. 1.6 FTE)
	Cynghorydd Morol Cynorthwyol	0	2 (1 swydd wag)
Cyfarwyddiaeth Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu: Cynllunio, Tirwedd, Newid Hinsawdd a Datgarboneiddio, a Thîm Ynni	Cynllunio, Tirwedd, Newid Hinsawdd a Datgarboneiddio, a Thîm Ynni	1	1
	Prif Gynghorydd Arbenigol: Cynllunio	0	1
	Cynghorydd Arbenigol: Cynllunio	2	2
Cyfarwyddiaeth Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu: Polisi a	Prif Gynghorydd Arbenigol: Cynllunio Morol	2	2

- Dywedodd 30% o ACLlau yng Ne-ddwyrain Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgìl hwn.

8.79. Dim ond 46% o ACLlau sy'n nodi bod ganddynt gapasiti digonol i reoli cyfrifoldebau SDCau a llifogydd, gyda 70% o ACLlau yn Ne-ddwyrain Cymru yn ymateb nad oes ganddynt gapasiti digonol. Mae'n debygol bod y gyfran uwch hon yn cydberthyn â nifer uwch o geisiadau Bwrdd Cymeradwyo SDCau (SAB) yn y rhanbarth hwn a gallai hefyd adlewyrchu etifeddiaeth digwyddiadau llifogydd sylweddol sy'n effeithio ar y rhanbarth hwn ers 2019 yn ogystal ag ardaloedd trefol isel sylweddol. Mewn cyferbyniad, mae LlC yn nodi'r maes pwnc hwn fel un sydd â bylchau sgiliau eang ledled Cymru.

8.80. Gwnaed rhywfaint o ymdrech i'w chyflwyno'n rhanbarthol yn Ne-ddwyrain Cymru. Cyngor Caerffili sy'n darparu'r gwasanaeth SAB ar gyfer Cyngor Torfaen a Chyngor Merthyr Tudful sy'n darparu'r gwasanaeth ar gyfer Cyngor Blaenau Gwent.

8.81. Mae hwn yn faes gwasanaeth a allai elwa o ddarpariaeth ranbarthol (ôl troed Cyd-bwyllgor Corfforedig) i geisio cydbwyso gwybodaeth leol a 'sgidiau ar lawr gwlad' ag arbenigedd, capasiti, cysondeb a gwydnwch a rennir.

8.82. Aeth adroddiad y Tasglu Tai Fforddiadwy i'r afael â'r broses SAB/SDCau bresennol a galw am gydweithio, gan roi'r dasg i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol nodi meysydd lle gellir lleddfu bylchau mewn sgiliau a chapasiti drwy gydweithio.

Tirwedd

8.83. O ran tirwedd, ymatebodd 71% o ACLlau gan ddweud bod angen mwy o bobl arnynt gyda'r sgìl hwn. Dywedodd 4% eu bod yn prynu hyn gan ymgynghorwyr, dywedodd 21% fod ganddynt ddigon o bobl gyda'r sgìl hwn, a dywedodd 4% eu bod yn prynu hyn gan ACLl arall.

8.84. Yn ôl rhanbarth, mae'r data yn dangos y canlynol:

- Dywedodd 0% o ACLlau yng Ngogledd Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgìl hwn;
- Dywedodd 0% o ACLlau yng Nghanolbarth Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgìl hwn;
- Dywedodd 25% o ACLlau yn Ne-orllewin Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgìl hwn;
- Dywedodd 40% o ACLlau yng Ne-ddwyrain Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgìl hwn.

8.85. Cydnabuwyd tirwedd fel set sgiliau angenrheidiol gan bob ACLl, ond nododd 71% ddiffyg capasiti o fewn eu ACLl. Mae hyn o bosibl oherwydd y pwyslais cynyddol ar dirwedd a bioamrywiaeth mewn polisi cynllunio cenedlaethol a Dyfodol Cymru 2040, gan gynnwys cyflwyno'r dull cam wrth gam yn ddiweddar. Roedd yr ymatebion i 'ecoleg a bioamrywiaeth' yn debyg. Mae Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru a PCAC yn nodi bylchau sgiliau a chapasiti lleol ar gyfer y pwnc hwn.

8.86. Awgrymodd chwech ymatebydd ACLl y gellid ystyried tirwedd ar sail cydwasanaethau. Teimlai un ymatebydd o'r Parc Cenedlaethol y gallai arbenigwyr tirwedd fod yn ddefnyddiol o safbwynt y Parc Cenedlaethol naill ai ar draws y tri Pharc Cenedlaethol neu ar draws ACLlau cyfagos.

8.87. Argymhellir ôl troed rhanbarthol.

Trafnidiaeth a phriffyrdd

8.88. O ran trafnidiaeth a phriffyrdd, ymatebodd 46% o ACLlau gan ddweud bod angen mwy o bobl arnynt gyda'r sgìl hwn. Dywedodd 4% eu bod yn prynu hyn gan ymgynghorwyr, dywedodd 38% fod ganddynt ddigon o bobl gyda'r sgìl hwn, dywedodd 4% eu bod yn prynu hyn gan ACLl arall, a dywedodd 8.3% nad oes angen y sgìl hwn yn eu ACLl.

8.89. Yn ôl rhanbarth, mae'r data yn dangos y canlynol:

- Dywedodd 33% o ACLlau yng Ngogledd Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgìl hwn;
- Dywedodd 0% o ACLlau yng Nghanolbarth Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgìl hwn;
- Dywedodd 50% o ACLlau yn Ne-orllewin Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgìl hwn;
- Dywedodd 10% o ACLlau yng Ne-ddwyrain Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgìl hwn.

8.90. Mae heriau capasiti yn parhau mewn cynllunio trafnidiaeth a phriffyrdd, gyda 46% o ACLlau yn nodi bod angen personél ychwanegol. Mae un ACLl yn ychwanegu at ei gapasiti drwy brynu gwasanaethau ymgynghori. Mewn cyferbyniad, mae gan 33% o ACLlau ddigon o gapasiti mewnol ar hyn o bryd i reoli eu llwyth gwaith. Mae LlC a PCAC yn nodi bylchau sgiliau lleol o fewn trafnidiaeth a phriffyrdd.

8.91. Mae ymatebion yn dangos dau faes gwaith penodol: mae swyddogion trafnidiaeth fel arfer yn rhoi sylwadau ynghylch trafnidiaeth gyhoeddus a seilwaith teithio llesol, er enghraifft nodi llwybrau a gwasanaethau ychwanegol, a cheisio cyfraniadau cynllunio

Adran 106. Mae swyddogion priffyrdd fel arfer yn darparu cyngor technegol ar geisiadau cynllunio unigol, er enghraifft ynghylch diogelwch priffyrdd, darpariaeth parcio a chytundebau mabwysiadu priffyrdd.

8.92. Mae gwaith mwy strategol a thrawsffiniol swyddogion trafnidiaeth yn awgrymu y gallai hon fod yn swyddogaeth a gyflawnir ar ôl troed rhanbarthol, wedi'i halinio â swyddogaeth statudol y Cyd-bwyllgor Corfforedig o gynhyrchu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Fodd bynnag, cydnabyddir bod swyddogion trafnidiaeth awdurdodau lleol yn gwneud llawer mwy na gwaith sy'n gysylltiedig â chynllunio yn unig, er enghraifft trafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol a chontractau gwasanaeth bysiau lleol.

8.93. Mewn cyferbyniad, mae'r mewnbwn lleol sy'n benodol i'r safle gan swyddogion priffyrdd yn golygu bod y rôl hon orau i'w chyflawni ar lefel awdurdod lleol ochr yn ochr â'r gwasanaeth rheoli datblygu.

Uwchgynllunio

8.94. O ran uwchgynllunio, ymatebodd 58% o ACLlau gan ddweud bod angen mwy o bobl arnynt gyda'r sgìl hwn. Dywedodd 13% eu bod yn prynu hyn gan ymgynghorwyr, dywedodd 25% fod ganddynt ddigon o bobl gyda'r sgìl hwn, a dywedodd 4% nad oes angen y sgìl hwn yn eu ACLl.

8.95. Yn ôl rhanbarth, mae'r data yn dangos y canlynol:

- Dywedodd 33% o ACLlau yng Ngogledd Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgìl hwn;
- Dywedodd 50% o ACLlau yng Nghanolbarth Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgìl hwn;
- Dywedodd 0% o ACLlau yn Ne-orllewin Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgìl hwn;

- Dywedodd 33% o ACLlau yng Ne-ddwyrain Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgìl hwn.

8.96. Cafodd uwchgynllunio ei gydnabod gan ACLlau fel bwlch capasiti a sgiliau ledled Cymru ond yn llai felly yng Nghanolbarth Cymru. Mae'n debyg bod hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â lleoliad ceisiadau mawr a strategol sydd angen cynllunio meistr ar eu cyfer. Mae Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru a PCAC yn nodi bylchau sgiliau a chapasiti lleol ar gyfer y pwnc hwn.

8.97. Ar y cam hwn, nid yw'n glir i ba raddau y bydd cynllunio meistr ar safleoedd ar raddfa strategol yn dod yn gylch gwaith CDSau yn hytrach na CDLau: gallai'r pwnc hwn symud yn naturiol i ôl troed rhanbarthol wrth i CDSau gychwyn.

8.98. Yn seiliedig ar y canfyddiadau hyn, mae argymhelliad 6 yn nodi meysydd pwnc y dylid eu harchwilio ymhellach i'w cyflawni ar ardal fwy na'r ardal leol.

Defnydd presennol o gydwasanaethau

8.99. Gofynnwyd i ymatebwyr ACLlau pa mor fodlon oeddent â'r trefniadau rhannu gwasanaethau presennol a ddefnyddir, ac a oeddent yn rhagweld y byddai'r trefniadau hynny'n parhau am y pum mlynedd nesaf.

8.100. Mynegodd y rhan fwyaf o'r ymatebion foddhad cyffredinol ac awydd i barhau â threfniadau rhannu gwasanaethau dros y pum mlynedd nesaf. Nododd yr ymatebwyr fanteision galluogi darpariaeth gwasanaeth hyfyw, yr angen i Gytundebau Lefel Gwasanaeth fod yn fwy seiliedig ar berfformiad a'u hadolygu'n rheolaidd, a'r risgiau o absenoldeb llwyr o gapasiti os daw cydwasanaeth i ben. Er bod y rhan fwyaf o'r adborth yn gadarnhaol ac yn gefnogol o'r cydwasanaethau presennol, mae'n hanfodol bod y pryderon gweithredol a strategol yn cael eu hystyried yn llawn wrth ddatblygu syniadau ar gyfer y dyfodol.

8.101. Rhoddwyd cyfle i'r rhai sy'n lletya cydwasanaethau presennol wneud sylwadau ar ba mor fodlon oeddent â'r trefniadau presennol. Roedd pob un o'r pum ymatebydd yn fodlon. Fodd bynnag, mynegodd un lletywr bryderon ynghylch cydnerthedd y gwasanaeth pan fydd staff yn absennol am gyfnodau hirach fel absenoldeb mamolaeth. Esboniodd un arall o'r rhai sy'n lletya ei fod yn ystyried ehangu ei gydwasanaeth i brosiectau ynni mawr.

Defnydd presennol o wasanaethau ymgynghori

8.102. Gofynnwyd i ymatebwyr, os ydynt yn prynu sgiliau gan ymgyngoriaethau ar hyn o bryd, pa mor fodlon ydynt â'r trefniant hwnnw, ac a ydynt yn ei weld yn parhau am y pum mlynedd nesaf.

8.103. Nododd llawer o ymatebwyr lefelau bodlonrwydd da yn gyffredinol, yn enwedig pan ddarperir gwasanaethau gan ddarparwyr dibynadwy neu'r rhai sydd â gwybodaeth a chysylltiadau lleol. Fodd bynnag, crybwyllwyd cost yn aml fel pryder gan ei bod yn aml yn fwy na'r ffi ymgeisio.

> "Mae'n wasanaeth hanfodol i gadw ein pennau uwchlaw'r dŵr. Er bod yr ymgynghorwyr rydym yn eu defnyddio fel arfer yn rhagorol, nid yw heb broblemau - mynediad at gronfeydd data / gliniaduron, deall y cyd-destun lleol, perthynas fwy pell ag Aelodau a chyda'r Awdurdod yn gyffredinol, weithiau'n methu â chyrraedd y targed wyth wythnos. Ydw, rwy'n rhagweld y bydd hyn yn parhau am y pum mlynedd nesaf mae arna' i ofn." (Ymatebydd ACLI)

ACLI: Cyllidebau hyfforddi

8.104. Gofynnwyd i ymatebwyr ACLlau ddarparu manylion eu cyllidebau hyfforddi blynyddol ar gyfer y blynyddoedd ariannol yn dechrau ym mis Ebrill 2018 ac Ebrill 2023. Roedd yn anodd tynnu unrhyw fewnwelediadau ystyrlon o'r 24 ymateb.

8.105. Yn rhyfeddol, nid oedd gan bum ACLl unrhyw gyllideb hyfforddi yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r gyllideb hyfforddi mewn ACLlau eraill wedi codi ychydig ers 2018, tra bod rhai wedi aros yr un fath (sy'n cyfateb i doriad cyllideb mewn termau real). Mae cyfuniad o ffioedd dysgu prifysgolion a chyllidebau hyfforddi ACLl sy'n crebachu wedi cwtogi ar gyfleoedd i 'ddatblygu eich cynllunwyr eich hun'.

8.106. Gofynnwyd i ACLlau a yw eu cyllideb hyfforddi flynyddol yn debygol o newid. Dim ond un ymatebydd sy'n credu y byddai eu cyllideb hyfforddi yn cynyddu, mae 16 (67%) yn credu y bydd yn aros yr un fath, mae tri yn credu y bydd yn lleihau a dydy pedwar ddim yn gwybod.



Ffigur15: Newidiadau i gyllidebau hyfforddi blynyddol o fewn ACLlau sy'n ymateb. Data a gafwyd mynediad iddo drwy arolwg ymchwil RTPI (Mai 2025).

8.107. Nododd yr ymatebwyr bwysigrwydd hyfforddiant wrth gadw ac uwchsgilio staff, a werthfawrogir am ddatblygiad proffesiynol a boddhad staff. Fe'i hystyrir yn hanfodol ond heb ddigon o gyllid.

Adnoddau i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig

8.108. Er rhwystredigaeth i lawer o randdeiliaid, gan gynnwys ACLlau, mae cynnydd ar y pedwar Cynllun Datblygu Statudol newydd wedi bod yn rhewlifol. Mae hyn wedi bod oherwydd nifer o ffactorau, gan gynnwys yr angen i fwrw ymlaen â'r ail gyfran o Gynlluniau Datblygu Lleol er mwyn cynnal cwmpas y Cynllun (pryder a liniarwyd yn rhannol i rai ACLlau drwy gael gwared ar ddyddiad dod i ben y Cynllun ar gyfer CDLlau a fabwysiadwyd cyn i Ddeddf 2015 ddod i rym) a'r diffyg adnoddau ariannol a staffio i gychwyn y CDSau. Efallai mai'r peth pwysicaf, serch hynny, oedd y gwaith sylfaen sylweddol yr oedd angen ei roi ar waith ar gyfer nifer o Gynghorau ymreolaethol a gwahanol yn wleidyddol gydag anghenion, blaenoriaethau a rhagolygon gwahanol i ddatblygu cydberthnasau gwaith a all gynnal aberthu pwerau gwneud penderfyniadau dros faterion pellgyrhaeddol a dadleuol.

8.109. Hyd at 2 Tachwedd 2025, mae dau o'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi penodi swyddogion cynllunio arweiniol CDS yn ffurfiol. Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ac Uchelgais Gogledd Cymru wedi cyflwyno eu Cytundebau Cyflawni CDS i Lywodraeth Cymru i'w cymeradwyo. Mae gwaith cychwynnol ar sail tystiolaeth wedi'i gomisiynu yng Ngogledd Cymru ac mae De-ddwyrain Cymru wedi dechrau ymarfer recriwtio ehangach i greu tîm CDS. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig cyllid ychwanegol i gefnogi'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig hynny sy'n gwneud cynnydd ystyrlon.

8.110. Yr heriau allweddol i gynnydd yw adnoddau, cyllid a chonsensws gwleidyddol o hyd. I ychwanegu ymhellach at yr her o ran alinio adnoddau a pholisïau, wrth i'r CDSau gael eu cynhyrchu, bydd Dyfodol Cymru 2040 yn cael ei adolygu a'i ddiwygio o bosibl, gan olygu bod angen ei adnoddau ei hun ac o bosibl newid y sylfeini y mae'r CDSau a'r CDLlau yn cael eu hadeiladu arnynt.

Sgiliau a chapasiti Adran Gynllunio Llywodraeth Cymru

8.111. Wrth edrych ymlaen i’r pum mlynedd nesaf, mae'r Is-adran Gynllunio yn bwriadu gwella ei gallu i ymgysylltu â gwaith achos cynllunio a chynllunio datblygu. Mae'r bylchau sgiliau allweddol a nodwyd gan Is-adran Gynllunio LlC ar gyfer dyfodol y proffesiwn yn cynnwys sgiliau arweinyddiaeth, yn enwedig yng nghyd-destun cynllunio olyniaeth ac annog cynllunwyr i ymgymryd â rolau uwch/rheoli. Gwelir cynllunio digidol a deallusrwydd artiffisial fel bylchau sgiliau eang. Mae angen cydnabyddedig am fwy o staff sydd â gwybodaeth a galluoedd digidol a data i sicrhau y gall yr Adran Gynllunio weithio'n effeithiol ac yn effeithlon yn y dyfodol.

Sgiliau a chapasiti PCAC

8.112. Er bod PCAC yn credu y bydd ganddo ddigon o gapasiti dros y pum mlynedd nesaf ar gyfer apeliadau rheoli datblygu a gorfodi, mae'n bwriadu cynyddu'r capasiti i reoli pwysau gwaith hysbys gan gynnwys archwiliadau CDLl yn y dyfodol, prosiectau mwynau neu ynni. Mae capasiti PCAC ar gyfer archwiliadau CDS yn parhau i fod yn ansicr nes bod rhagor o wybodaeth ac eglurhad yn cael ei ddarparu. Mae PCAC wedi nodi bylchau gwybodaeth ynghylch sgiliau digidol a data, a mwynau a gwastraff. Mae wedi prynu cymorth ychwanegol gan PINS (Lloegr) i ymdopi ag uchafbwyntiau llwyth gwaith neu weithiau oherwydd gwrthdaro buddiannau.

8.113. Er nad oes cyllideb hyfforddi benodol ar gyfer staff PCAC, mae'r holl staff yn cael o leiaf wyth diwrnod o hyfforddiant y flwyddyn drwy Gyfarfodydd Grŵp Arolygwyr chwarterol, a hyfforddiant ychwanegol pellach o ddau i bum diwrnod drwy Labordy Dysgu Llywodraeth Cymru, RTPI neu ddigwyddiadau tebyg a dysgu penodol i bynciau.

8.114. Mae PCAC yn cynnal Llawlyfr Hyfforddi Arolygwyr (ITM) gyda chanllawiau cyfredol ar sut i ymdrin â gwaith achos ar bynciau craidd. Neilltuir un diwrnod y mis i bob Arolygydd ar gyfer gwaith 'arweinyddiaeth pwnc' Arolygydd. Mae pob Arolygydd yn

cymryd cyfrifoldeb am bwnc craidd (e.e. llifogydd) gan sicrhau eu bod yn cael gwybod am newidiadau perthnasol i ddeddfwriaeth, cyfraith achosion neu bolisi ac yn lledaenu'r wybodaeth honno i weddill PCAC. Maent yn diweddaru'r ITM ac yn darparu hyfforddiant yn ôl yr angen.

8.115. Wrth edrych tua'r dyfodol, y flaenoriaeth sgiliau fydd cynyddu nifer yr Arolygwyr i ymdopi â llwythi gwaith cynyddol, rheoli cynllunio ar gyfer olyniaeth, a recriwtio a chadw gweithwyr proffesiynol medrus i gadw i fyny â chymhlethdod a swmp cynyddol y gwaith. Hoffai PCAC weld integreiddio systemau cynllunio digidol yn y dyfodol ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru, er mwyn galluogi rhannu data yn fwy effeithlon a lleihau mewnbwn data ailadroddus, er enghraifft rhwng cais ACLl ac apêl PCAC.

Nodi anghenion hyfforddi mewn mannau eraill

8.116. Roedd trafodaeth gyda PCAC ynghylch ansawdd CDLlau yn y dyfodol i'w harchwilio yn adlewyrchu pryder ehangach ynghylch capasiti, arweinyddiaeth a chysondeb y system gynllunio yng Nghymru. Mae PCAC yn credu bod angen cymorth ar draws cynllunio'r sector cyhoeddus i gefnogi safonau ac ymdrechu i sicrhau darpariaeth gynllunio gadarn o ansawdd uchel. Yn benodol, mae angen am hyfforddiant ar lefel genedlaethol ar bethau sylfaenol fel ysgrifennu hysbysiadau gorfodi ac adroddiadau swyddogion. Gallai hyn osgoi problemau wrth apelio.

Gwella darpariaeth gwasanaethau yng Nghymru

8.117. Gofynnwyd i PCAC pa newidiadau y gellid eu gwneud i wella'r ddarpariaeth gwasanaethau yng Nghymru a gwneud defnydd gwell o adnoddau presennol. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys cael gwared ar geisiadau diangen ar raddfa fach, drwy adolygu hawliau datblygu a ganiateir, er mwyn rhyddhau capasiti cynllunio. Argymhelliad allweddol arall oedd cyflwyno polisïau rheoli datblygu cenedlaethol.

Byddai set unedig o bolisïau, a ddatblygwyd unwaith ar lefel genedlaethol, yn caniatáu i CDLlau ganolbwyntio'n llwyr ar faterion lleol.

Sgiliau a chapasiti CNC

8.118. Nid oes angen i dîm CNC fod yn gynllunwyr cymwys o reidrwydd, rhaid iddynt allu rheoli ffrydiau gwybodaeth amrywiol, dadansoddi data cymhleth, a chynhyrchu ymatebion o ansawdd uchel. Mae anghenion sgiliau'r tîm wedi esblygu oherwydd cymhlethdod cynyddol ceisiadau cynllunio sy'n cynnwys technolegau newydd fel ffermydd gwynt, dal carbon a storio batris. Mae bylchau sgiliau critigol yn cynnwys niwtraliaeth maetholion, rhanddirymiadau o dan y Rheoliadau Cynefinoedd a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, rheoli risg llifogydd, iawndal amgylcheddol strategol, a chynllunio lliniaru. Bu cynnydd nodedig yn niddordeb y cyhoedd a thrydydd partïon mewn ceisiadau cynllunio, ac mae mwy o wrandawiadau ac ymholiadau, gan gynyddu'r galw ar gapasiti'r tîm.

8.119. Nododd CNC y potensial i rannu cyngor ar ecoleg a bioamrywiaeth yn debyg i gyngor ar fwynau. Mynegodd CNC awydd ehangach am arweinyddiaeth fwy cyson a chymhwyso polisi cynllunio yn gliriach i leihau amwysedd a chefnogi darparu gwasanaethau.

8.120. Wrth edrych i’r dyfodol, mae'r cyllid disgwyliedig o Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024 yn gyfle gwerthfawr i gryfhau capasiti o fewn CNC. Gallai trawsnewid digidol, gan gynnwys platfform cwsmeriaid newydd sy'n cael ei archwilio ar hyn o bryd, hefyd helpu i wella effeithlonrwydd a lleihau llwyth gwaith â llaw, er bod y mentrau hyn yn eu camau cynnar o hyd.

Gwella darpariaeth gwasanaethau yng Nghymru

8.121. Nododd CNC fod trothwy deddfwriaethol isel ar gyfer beth sy'n cyfrif fel cais cynllunio 'dilys', gan arwain at ailymgyngoriadau dro ar ôl tro lle cyflwynir gwybodaeth annigonol i ddechrau. Nododd CNC yr angen am safonau uwch a chraffu cychwynnol gwell gan ACLlau er mwyn osgoi gwastraffu ymdrech yn adolygu ceisiadau anghyflawn neu annigonol.

9. Tyfu'r proffesiwn

9.1. Nododd 11 o ACLlau eu bod yn cyflogi cynllunwyr dan hyfforddiant ar hyn o bryd, sy'n cynnwys cyfuniad o fyfyrwyr lleoliad blwyddyn allan llawn amser, gweithwyr ar ryddhad undydd ar gyfer astudio rhan-amser, prentisiaid er enghraifft drwy Lwybrau at Gynllunio, a myfyrwyr bwrsariaeth.

9.2. Mae Is-adran Gynllunio LIC yn cyflogi myfyriwr/myfyrwyr blwyddyn allan, gan weithredu cylchdro rhwng y Gyfarwyddiaeth Gynllunio a PCAC.

9.3. Er mwyn deall yn well y galw tebygol yn y dyfodol am gynllunwyr gyrfa gynnar, gofynnwyd i ACLlau, dros y pum mlynedd nesaf, a yw eich ACLl yn bwriadu cyflogi cynllunwyr dan hyfforddiant (graddedigion/prentisiaethau ac ati).



Ffigur 16: Ymateb i alw ACLlau yn y dyfodol am gyflogaeth hyfforddeion. Data a gafwyd mynediad iddo drwy arolwg ymchwil RTPI (Mai 2025).

9.4. Mae'r data yn Ffigur 16 yn dangos y canlynol:

- Mae'r rhan fwyaf o ACLlau (42%) yn ansicr (wedi ateb efallai) ynghylch a ydynt yn bwriadu cyflogi cynllunwyr dan hyfforddiant o fewn y pum mlynedd nesaf;
- Dywedodd 41% o ACLlau eu bod yn debygol o gyflogi cynllunwyr hyfforddeion dros y pum mlynedd nesaf, gyda 12% o'r rheini eisiau cyflogi mwy o hyfforddeion nag sydd mewn cyflogaeth ar hyn o bryd, o'i gymharu â dim ond 4% sydd eisiau cyflogi llai o hyfforddeion nag sydd mewn cyflogaeth ar hyn o bryd;
- Atebodd 17% o'r ymatebwyr 'na' i'r cwestiwn.

9.5. Datgelodd cyfweliadau ag ACLlau fod rhaglenni graddedig a hyfforddeion wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol ar y cyfan. Mae croeso i fentrau fel y rhaglen Llwybrau at Gynllunio ond nododd y rhai a gafodd gyfweliad gyfyngiadau ariannol fel her wrth eu defnyddio'n llawn.

9.6. Mae cymorth i recriwtio wedi'i dargedu o gefndiroedd gradd nad ydynt yn ymwneud â chynllunio, ar yr amod bod hyfforddiant strwythuredig, cyllid a chymorth mwy cyffredinol ar waith ar gyfer cymwysterau ôl-raddedig. Ystyriwyd bod cryfhau cysylltiadau â phrifysgolion, mynychu ffeiriau gyrfaoedd, a chynnig lleoliadau i gyd yn werthfawr. Roedd y rhai a gafodd gyfweliad hefyd yn dadlau dros ymgysylltu'n gynharach ar gamau TGAU neu Safon Uwch i godi ymwybyddiaeth o gynllunio fel proffesiwn. Mae CBAC TGAU mewn Amgylchedd Adeiledig wedi'i gymeradwyo gan Cymwysterau Cymru ond mae cynnwys cyfyngedig am gynllunio sydd ynddo, ac nid yw cynllunio wedi'i nodi yn yr adran dewisiadau gyrfa. Mae gan raglen llysgenhadon ysgolion RTPI a ail-lansiwyd rôl i'w chwarae yma hefyd.

Ysgolion cynllunio

Nifer y myfyrwyr ar gyrsiau Cynllunio achrededig yng Nghymru a'r ardaloedd cyfagos

9.7. Gwnaethom ymgysylltu â'r pedair ysgol gynllunio agosaf sydd wedi'u lleoli yng Nghymru a Lloegr i roi trosolwg eang o gofrestriadau myfyrwyr ar gyrsiau cynllunio sydd wedi'u hachredu'n llawn neu'n rhannol gan RTPI, er mwyn asesu'r potensial o gynllunwyr yn y dyfodol yng Nghymru.

9.8. Ym mlwyddyn academaidd mis Medi 2023, roedd 434 o fyfyrwyr wedi cofrestru ar un o 14 cwrs ôl-raddedig ac roedd 386 o fyfyrwyr wedi cofrestru ar un o 6 chwrs israddedig yn y pedair prifysgol hyn.

9.9. Mae'r data'n dangos nifer iach o fyfyrwyr cynllunio mewn prifysgolion yng Nghymru ac yn agos ati, ond nid yw'n rhoi unrhyw sicrwydd ynghylch ble y bydd graddedigion yn dewis gweithio ac felly'r effaith ar y biblinell o gynllunwyr sector cyhoeddus y mae taer angen amdani yng Nghymru. Mae rôl yma i gyrff y sector cyhoeddus, Prifysgol Caerdydd ac RTPI Cymru i geisio hyrwyddo'r sector cyhoeddus yng Nghymru fel

opsiwn deniadol, yn ogystal â chyflogwyr yn y sector cyhoeddus sy'n creu swyddi newydd ar lefel graddedig.

Gwerth lleoliadau i fyfyrwyr a chyflogadwyedd

9.10. Caiff lleoliadau blwyddyn allan eu hystyried yn eang fel profiad cadarnhaol. Cadarnhaodd un Pennaeth Ysgol fod myfyrwyr sy'n ymgymryd â blwyddyn leoliad yn eu prifysgol yn fwy tebygol yn ystadegol o ennill gradd anrhydedd dosbarth cyntaf. Mae tystiolaeth anecdotaidd o'r prifysgolion yn dangos bod cysylltiad cryf rhwng addysg a chyflogaeth. Esboniodd un cyfwelai fod cyflogadwyedd cynllunio, drwy eu prifysgol, yn eithriadol o gryf ar 92%. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o raddedigion yn symud i'r sector preifat.

Prentisiaethau a bwrsariaethau yng Nghymru

9.11. Yn wahanol i Loegr, ac eithrio'r cynllun Llwybrau i Gynllunio, nid oes unrhyw brentisiaethau cynllunio yng Nghymru a gefnogir gan Lywodraeth Cymru. Cyn cyflwyno cap oedran o 21 oed ar gyfer ymgeiswyr, sy'n dinistrio'r gadwyn gyflenwi hon, roedd prentisiaeth L7 yn fodel llwyddiannus iawn a oedd yn werth ei efelychu (gyda thros 200 o brentisiaethau fesul blwyddyn academaidd cyn y cap oedran).

9.12. Mae angen trafodaeth bellach i ddeall pam mae nifer y bobl sy'n manteisio ar y cynllun Llwybrau i Gynllunio mor isel yng Nghymru, hyd yn oed pan fydd cynnydd newydd mewn ffioedd ymgeisio yn rhoi sicrwydd o incwm ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ym mis Ebrill 2026.

9.13. Mae Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio Prifysgol Caerdydd yn gweithio gyda nifer o sefydliadau'r sector preifat i ddarparu cyfleoedd bwrsariaeth i fyfyrwyr cynllunio sydd wedi cofrestru ar eu cyrsiau, gan gynnwys bwrsariaethau a ariennir gan Bute Energy

a Landsec. Mae Siambr Fasnach Prydain yn cynnig un lle bwrsariaeth y flwyddyn fesul ysgol gynllunio achrededig, a weinyddir gan yr RTPI.

9.14. Dywedodd Gill Bristow, Pennaeth Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio ym Mhrifysgol Caerdydd:

> "Mae angen dybryd i ehangu'r dalent sy'n dod i'r proffesiynau cynllunio ac eiddo yng Nghymru ac i sicrhau bod y proffesiwn yn adlewyrchu amrywiaeth y gymdeithas y mae'n ei gwasanaethu'n well. Yr Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio yw'r unig ddarparwr rhaglenni addysgol achrededig yng Nghymru sy'n darparu llwybr i'r proffesiwn cynllunio. Mae'r bwrsariaethau hyn hefyd yn ategu agenda Ehangu Cyfranogiad Prifysgol Caerdydd ar gyfer cyfleoedd addysgol."

Rhwystrau i ddarparu swyddi dan hyfforddiant

9.15. Nodwyd rhwystrau sylweddol sy'n llesteirio gallu sefydliadau i ddarparu cyfleoedd dan hyfforddiant. Cyfeiriwyd at broblemau ariannu gan 65% o'r ymatebwyr. Mae'r penderfyniad diweddar i gynyddu ffioedd ceisiadau cynllunio yn cyflwyno ateb pendant iawn yma, gydag ACLlau yn gallu ailfuddsoddi incwm ychwanegol mewn cynllunio gwelliannau i wasanaethau.

9.16. Tynnodd sefydliadau sylw hefyd at faterion ymarferol, gan gynnwys y lefel uchel o gefnogaeth a goruchwyliaeth sydd ei hangen ar gynllunwyr hyfforddeion, sy'n ymestyn adnoddau staff presennol. Ar ben hynny, mae pryder y gallai buddsoddiad sylweddol o amser ac arian mewn hyfforddiant gael ei golli os bydd hyfforddeion yn gadael yn fuan ar ôl cymhwyso.

9.17. Dywedodd rhai ACLlau eu bod yn cael trafferth denu ymgeiswyr addas er gwaethaf ymdrechion drwy Llwybrau i Gynllunio. Mae pryder bod diffyg ymwybyddiaeth neu ddiddordeb mewn cynllunio fel proffesiwn, yn enwedig yn y sector cyhoeddus. Mae

anghenion penodol, fel recriwtio cynllunwyr sy'n siarad Cymraeg, yn gofyn am ehangu llwybrau hyfforddeion i ateb y galw lleol. At ei gilydd, mae barn gyffredin bod y proffesiwn mewn perygl o wynebu prinder capasiti a bylchau sgiliau dyfnach yn y dyfodol heb fuddsoddiad sylweddol yn y maes hwn.

10. Gwasanaeth cynllunio effeithiol: ein casgliadau

10.1. Mae'r adroddiad hwn yn darparu sylfaen dystiolaeth mewn perthynas â chyllidebau gwasanaethau cynllunio, y gweithlu, a sgiliau a chapasiti o fewn ACLlau, PCAC, swyddogaeth gynllunio CNC ac Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru. Rydym yn gorffen gyda saith argymhelliad sy'n deillio o'r dystiolaeth.

10.2. Mae ein canfyddiadau’n tynnu sylw at sector sydd wedi gweithredu dan straen sylweddol am gyfnod hir ac sy’n parhau i wynebu heriau. Oni bai bod ganddi adnoddau digonol, ni all system gynllunio Cymru gyflawni ei llawn botensial a chyflawni amcanion y Llywodraeth. Mae’r heriau’n ddeublyg: gwrthdroi toriadau blaenorol, ac edrych ymlaen yn seiliedig ar broffil oedran y proffesiwn a chymhlethdod cynyddol y system.

10.3. Mae'r dystiolaeth yn datgelu cefndir o doriadau sylweddol ers 2008, gyda chyllidebau'r sector cyhoeddus wedi'u lleihau ledled Cymru gyfan. Rhwng blynyddoedd ariannol mis Ebrill 2008 a mis Ebrill 2023, gostyngodd cyllidebau ACLlau 43% mewn termau real. Lleihaodd maint timau cynllunio yn unol â hynny. Ar yr un pryd, mae cymhlethdod a lled ystyriaethau cynllunio wedi cynyddu. Mae hyn wedi effeithio ar sgiliau a chapasiti, morâl a darparu gwasanaethau.

10.4. Rhwng mis Ebrill 2018 a mis Ebrill 2024, dangoswyd 46 o swyddi swyddogion cynllunio ychwanegol ar strwythurau tîm ACLlau. Fodd bynnag, ar adeg ymateb i’n harolwg (Mai 2025), nodwyd bod 37 o swyddi swyddogion cynllunio yn wag, ynghyd â chwe swydd arbenigol a phum swydd cymorth busnes. At ei gilydd, roedd 73% o

ACLlau yn gweithredu gydag un neu fwy o swyddi gwag o fewn eu gwasanaeth cynllunio. Nododd 11 o ACLlau nifer o swyddi gwag, gyda rhai yn nodi cynifer â phum swydd wag. O ganlyniad, ychydig iawn o welliant gwirioneddol a fu yn lefelau adnoddau mewn ACLlau.

10.5. Ers mis Ebrill 2025, gostyngodd maint Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru o 60 o swyddogion i 41 o swyddogion yn 2018, i 33 o swyddogion yn 2024. Mae hyn wedi cael effaith amlwg ar allu'r Is-adran Gynllunio i ddarparu diweddariadau polisi cenedlaethol amserol a chadarn neu ddarparu arweinyddiaeth ehangach, er enghraifft drwy fonitro perfformiad ac ysgogi gwelliant. Dim ond yn ystod y misoedd diwethaf y cymerwyd camau i ddechrau gwrthdroi rhai o'r toriadau hyn drwy recriwtio cynllunwyr sydd eu hangen yn ddirfawr.

10.6. Yn yr un modd, mae CNC wedi wynebu cyfnod o bwysau ariannol a llwythi gwaith cynyddol sydd bellach yn dechrau cael sylw yn rhannol gyda chyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

10.7. Mae PCAC yn parhau i recriwtio Arolygwyr ychwanegol i ddelio â llwyth achosion cynyddol gymhleth o brosiectau seilwaith ac archwiliadau CDLlau. Bydd cynnydd ar CDSau a'r grwpiau rhanbarthol sy'n deillio o hynny o CDLlau 'ysgafn' newydd yn gofyn am adnoddau ychwanegol sylweddol.

10.8. At ei gilydd, yr angen recriwtio tymor byr yw 161 o gynllunwyr ychwanegol, 15 o swyddogion arbenigol a phum swyddog cymorth busnes. Yn syml, mae hyn i fynd i'r afael â swyddi gwag ACLlau hysbys (ym mis Mai 2025) (37 o gynllunwyr), anghenion CDS (24 o gynllunwyr), capasiti PCAC ar gyfer CDS, LDP a gwaith seilwaith (5 o arolygwyr cynllunio) ac ymddeoliad sydd ar ddod (95 o gynllunwyr gan gynnwys arolygwyr cynllunio 55+ oed), ynghyd â 15 o swyddogion arbenigol (chwe swydd wag hysbys yn yr awdurdod lleol a naw swydd wag yn CNC ym mis Mai 2025). Nid yw hyn yn caniatáu gwrthdroi'r toriadau dwfn ac anghynaladwy o dros ddegawd o gyni.

10.9. Yn y tymor canolig, mae canran sylweddol o 42% o weithlu cynllunio'r sector cyhoeddus (ac eithrio CNC) yn 45+ oed (234 o gynllunwyr). Oni bai bod y golled bosibl hon yn cael ei datrys drwy strategaeth recriwtio a chadw strategol gyda chyllid priodol, bydd effaith sylweddol ar ddarparu gwasanaethau yn y tymor canolig.

10.10. Nid oedd cwmpas yr ymchwil hwn yn cynnwys trafod na phrofi syniadau a chynigion y tu allan i'r sefydliadau sector cyhoeddus sy'n rhan o'r ymchwil hwn. Ein hargymhelliad cyntaf yw sefydlu seinfwrdd i drafod ymarferoldeb ac effaith gweithredu ein hargymhellion.

10.11. Ym mis Hydref 2025, pasiodd Senedd Cymru reoliadau yn cynyddu ffioedd ceisiadau cynllunio o 01 Rhagfyr 2025. Dyma gam cyntaf ond arwyddocaol tuag at adennill costau llawn ar gyfer gwasanaethau rheoli datblygu, gan roi hwb i incwm sydd ei angen yn ddirfawr. Mae angen arweinyddiaeth gref gan Benaethiaid Cynllunio, Prif Swyddogion Cyllid, Prif Weithredwyr a gwleidyddion: **rhaid** ailfuddsoddi'r incwm ychwanegol sy'n deillio o gynnydd mewn ffioedd ceisiadau cynllunio mewn gwasanaethau cynllunio er mwyn gwella'r ddarpariaeth gwasanaethau a chyflawni'r canlyniadau y mae eu hangen ar ein cymunedau: cartrefi, swyddi, mannau gwyrdd a seilwaith yn amserol sy'n rhoi sicrwydd a hyder i fuddsoddwyr.

10.12. Dylai'r buddsoddiad hwn mewn timau cynllunio gynnwys y gwasanaeth cynllunio ehangach gan gynnwys llunio cynlluniau, rheoli datblygu, gorfodi ac ymgyngoreion sy'n uniongyrchol gysylltiedig fel ecoleg a phriffyrdd.

10.13. Ar hyn o bryd, nid oes gan y sector cyhoeddus y capasiti i ganolbwyntio ar uchelgeisiau gwasanaethau cynllunio na nodau strategol. Felly, rydym yn argymell y dylid creu Gwasanaeth Gwella Cynllunio i ddatblygu a hyrwyddo arfer gorau ac effeithlonrwydd, cefnogi adolygiadau gan gymheiriaid a monitro perfformiad,

gwasanaethu fel canolfan wybodaeth ganolog ar gyfer y proffesiwn, a chefnogi arloesedd a cydwasanaethau lle bo'n briodol (argymhelliad 2).

10.14. Er mwyn sicrhau gwydnwch a chynaliadwyedd gwasanaethau yn y dyfodol, mae angen gwneud rhagor o waith i gytuno ar ddiffiniad o faint y gwasanaeth cynllunio y mae adennill costau llawn yn berthnasol iddo (argymhelliad 3).

10.15. Mae Argymhelliad 4 yn ceisio ymrwymiad i fonitro capasiti'r gwasanaeth cynllunio (niferoedd staffio, nifer y swyddi gwag, ac arolwg sgiliau) yn rheolaidd, incwm ffioedd fel cyfran o gostau'r gwasanaeth rheoli datblygu, perfformiad a sut y defnyddiwyd yr incwm ffioedd cynyddol ers mis Rhagfyr 2025 i wella'r gwasanaethau a ddarperir.

10.16. Dylid sefydlu strategaeth recriwtio a chadw gynhwysfawr, gan edrych ar bob llwybr i dyfu'r llinell o gynllunwyr, gan hyrwyddo gwerth unigryw a manteision allweddol cynllunio fel gyrfa yng Nghymru (argymhelliad 5).

10.17. Yn seiliedig ar ein canfyddiadau, mae argymhelliad 6 yn nodi meysydd pwnc y dylid eu harchwilio ymhellach i'w cyflawni ar ardal fwy na'r ardal leol. Mae Argymhelliad 7 yn ymwneud â'r potensial ar gyfer defnyddio offer cynllunio digidol gan gynnwys deallusrwydd artiffisial, lle bo'n foesegol ac yn briodol, i ryddhau cynllunwyr i gynllunio, gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth, a defnyddio barn ac arbenigedd dynol ar sail gwerthoedd.

10.18. Er gwaethaf yr heriau a nodwyd drwy'r gwaith hwn, mae ymrwymiad, penderfyniad a dyfalbarhad llawer o unigolion allweddol wedi bod yn amlwg. Oni roddir sylw i'r mater, bydd methu â chynllunio adnoddau priodol ar gyfer gwasanaethau yn arwain at gostau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i gymdeithas.

> “Nid y system gynllunio sydd ar fai, gwraidd y broblem yw’r tanariannu cronig, y diffyg adnoddau a’r diffyg buddsoddiad sydd angen sylw ar unwaith. Mae

angen mynd i'r afael â'r mater sylfaenol hwn fel cam cyntaf. Os gwneir hyn yn iawn bydd gan gynllunio yng Nghymru ddyfodol disglair.” (Ymatebydd ACLl)

11. Argymhellion

Argymhelliad 1: Sefydlu seinfwrdd

O ganlyniad i’w natur gydgysylltiedig, mae'n hanfodol bod effaith gweithredu'r argymhellion arfaethedig neu atebion eraill ar y darlun ehangach yn cael ei deall yn llawn. Nid oedd cwmpas yr ymchwil hwn yn cynnwys trafod na phrofi syniadau a chynigion y tu allan i'r sefydliadau sector cyhoeddus sy'n rhan o'r ymchwil hwn. Felly, rydym yn argymell seinfwrdd i drafod ymarferoldeb ac effaith gweithredu'r argymhellion yn yr adroddiad hwn. Dylai'r seinfwrdd gynnwys Fforwm Cynllunio RTPI Cymru (sy'n cynnwys cynrychiolaeth o ysgol gynllunio Prifysgol Caerdydd, PCAC, Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru (POSW), RTPI Cymru, Fforwm Ymgynghorwyr Cynllunio Cymru ac Adran Gynllunio LIC) gyda gwahoddiadau ychwanegol i gynrychiolwyr o Gyd-bwyllgorau Corfforedig, CNC a CLILC.

Dylai RTPI Cymru fod yn gyfrifol am ddatblygu'r argymhelliad hwn.

Argymhelliad 2: Sefydlu Gwasanaeth Gwella Cynllunio i Gymru

Gwasanaeth Gwella Cynllunio tebyg i'r gwasanaeth gwella llywodraeth leol annibynnol a sefydlwyd yn yr Alban (gweler Atodiad 7). Byddai'n cael ei arwain gan Hyrwyddwr Gwella Cynllunio annibynnol newydd ei greu a byddai'n:

- Datblygu a hyrwyddo arfer gorau ac effeithlonrwydd;
- Cefnogi adolygiad gan gymheiriaid a monitro perfformiad;
- Gwasanaethu fel canolfan wybodaeth ganolog ar gyfer y proffesiwn;

- Cefnogi arloesi a chydwasanaethau lle bo'n briodol.

Dylai Is-adran Cynllunio LIC fod yn gyfrifol am ddatblygu'r argymhelliad hwn. Gallai'r gwasanaeth hwn gael ei gynnal gan CLILC ond bydd angen darparu adnoddau ychwanegol.

Argymhelliad 3: Diffinio'r gwasanaeth cynllunio

Mae angen diffiniad clir, y cytunwyd arno ynghylch gwasanaethau cynllunio, gan egluro pa agweddau ar ddarparu gwasanaethau cynllunio sydd o fewn cwmpas i adennill costau llawn a pha agweddau ddylai barhau i gael eu hariannu'n ganolog gan wasanaethau cyhoeddus. Mae hyn yn hanfodol os ydym am fynd i'r afael yn briodol ag adnoddau a chapasiti o fewn gwasanaethau cynllunio. Gallai hyn hefyd ddarparu sylfaen ar gyfer fframweithiau perfformiad yn y dyfodol, gan ei gwneud hi'n bosibl mesur canlyniadau ac effaith yn fwy cywir, nodi meysydd i'w gwella a dangos gwerth. Heb ddiffiniad clir, rydym mewn perygl o ddata anghyson o ganlyniad i ddulliau a chyd-destunau amrywiol ledled Cymru.

Dylai Is-adran Cynllunio LIC a POSW fod yn gyfrifol am ddatblygu'r argymhelliad hwn.

Argymhelliad 4: Casglu a chyhoeddi data cynllunio o ansawdd

Ymrwymiad i fonitro capasiti'r gwasanaeth cynllunio yn rheolaidd (niferoedd staffio, nifer y swyddi gwag, ac arolwg sgiliau) gan ddefnyddio'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn fel llinell sylfaen, fel estyniad i'r fframwaith perfformiad cynllunio cenedlaethol a ailgychwynnwyd yn ddiweddar i gefnogi gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth a gwydnwch hirdymor. Dylai hyn gynnwys adrodd ar incwm ffioedd fel cyfran o gostau gwasanaeth rheoli datblygu, swm yr incwm ffioedd cynllunio ychwanegol ers mis Rhagfyr 2025 a sut mae'r incwm ffioedd ychwanegol hwn wedi'i ailfuddsoddi i wella'r gwasanaethau cynllunio a ddarperir. Bydd hyn yn datblygu

sylfaen dystiolaeth gryfach a mwy manwl dros amser, gan gefnogi gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth a gwydnwch yn y tymor hir. Bydd hefyd yn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd ynghylch sut mae incwm ffioedd ymgeisio cynyddol yn cael ei ailfuddsoddi. Dylid adrodd ar y data hwn yn flynyddol ac mewn fformat digidol hygyrch. Mae'n hanfodol bod pob plaid yn cyflwyno'r data perthnasol os ydym am fesur iechyd parhaus y gwasanaeth cynllunio yn gywir.

Dylai Is-adran Cynllunio LIC a'r ACLlau fod yn gyfrifol am ddatblygu'r argymhelliad hwn.

Argymhelliad 5: Datblygu strategaeth recriwtio a chadw staff

Dylid sefydlu strategaeth recriwtio a chadw gynhwysfawr ar gyfer cynllunio yng Nghymru gan edrych ar bob llwybr i dyfu'r llinell o gynllunwyr, gan hyrwyddo gwerth unigryw a manteision allweddol cynllunio fel gyrfa yng Nghymru. Bydd hyn yn gofyn am fuddsoddiad ariannol ac ymrwymiad sylweddol gan bob plaid er mwyn sicrhau'r cynnydd hanfodol yn lefelau adnoddau. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad gan ACLlau i ailfuddsoddi'r incwm ffioedd ymgeisio ychwanegol sy'n deillio o gynnydd ffioedd Rhagfyr 2025.

Dylai'r strategaeth recriwtio a chadw gynnwys:

- Gwaith allgymorth i ysgolion i godi ymwybyddiaeth o gynllunio fel gyrfa ac adolygiad o TGAU yr Amgylchedd Adeiledig i sicrhau bod cynllunio yn cael ei amlygu fel llwybr gyrfa;
- Cymorth i unig ysgol gynllunio Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd gan gynnwys drwy weithio mewn partneriaeth ar allgymorth, recriwtio, lleoliadau, cymorth i fentrau DPP ar gynllunio digidol a meysydd eraill o ddatblygu sgiliau;
- Creu llwybr prentisiaeth Lefel 7 ar hyd llinellau'r cynllun llwyddiannus sy'n gweithredu yn Lloegr (heb fwlch oedran), i ategu'r cynllun Llwybrau at Gynllunio;

- Cefnogi cyfleoedd ar gyfer trawsnewid i gynllunio yng nghanol gyrfa drwy wasanaethau fel Ymarfer Cyhoeddus.

Dylai CLILC fod yn gyfrifol am ddatblygu'r argymhelliad hwn mewn partneriaeth ag ysgol gynllunio Prifysgol Caerdydd, Awdurdodau Cynllunio Lleol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig, CNC, PCAC, RTPI Cymru, Fforwm Ymgynghorwyr Cynllunio Cymru a LIC.

Argymhelliad 6: Cydwasanaethau

Canfu'r ymchwil enghreifftiau llwyddiannus o sgiliau a rennir yn gweithredu ar draws ACLlau yng Nghymru. Mae'r gwasanaethau hyn wedi datblygu lle bo angen a chapasiti ar gyfer y gwasanaeth. I symud ymlaen, rhaid nodi'r cysyniad o gydwasanaethau drwy opsiynau clir ac wedi'u costio'n llawn sy'n nodi gofynion gan gynnwys capasiti. Heb y wybodaeth hon bydd cwestiynau'n parhau a gellir colli cyfleoedd ar gyfer effeithlonrwydd a chydweithio. Gallai gwasanaethau cychwynnol gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Gwasanaeth asesu ac adolygu hyfywedd ledled Cymru. Bydd hyn yn cefnogi gwneud penderfyniadau cadarn gan ddefnyddio pecyn cymorth hyfywedd newydd Cymru gyfan, gan ddarparu arbenigedd a gwydnwch ar bwnc y mae cynllunwyr y sector cyhoeddus yn dweud eu bod yn teimlo nad oes ganddynt arbenigedd ynddo;
- Arweinyddiaeth ledled Cymru ar gynllunio digidol i archwilio a chyflwyno technoleg newydd a gwella sgiliau cynllunwyr, gan sicrhau arbedion maint posibl, darparu gwydnwch, gwneud y defnydd gorau o arbenigedd a darparu cysondeb ledled Cymru;
- Arbenigedd ledled Cymru ar asesu cydymffurfiaeth â pholisïau carbon isel a sero net, ac i sefydlu polisïau neu newidiadau i Reoliadau Adeiladu ledled Cymru;

- Arbenigedd ôl troed Cyd-bwyllgorau Corfforedig ar brosiectau seilwaith mawr er mwyn helpu gydag Adroddiadau Effaith Lleol ar gyfer SIPs, yn ogystal ag ar ecoleg, tirwedd, gwasanaethau cyfreithiol, a thrafnidiaeth. Dylai'r elfen gwasanaethau cyfreithiol gynnwys archwilio'r potensial ar gyfer cytundebau Adran 106 safonol, arbenigedd ar orchmynion prynu gorfodol, a drafftio Hysbysiadau Gorfodi;
- Gwasanaethau rhanbarthol neu wasanaethau mwy na gwasanaethau lleol (is-ranbarthol) os oes angen ar gyfer treftadaeth ac SDCau;
- Niwtraliaeth maetholion/Byrddau Rheoli Maetholion ar sail dalgylch afon neu ACA forol.

Dylai ACLlau a Chyd-bwyllgorau Corfforedig fod yn gyfrifol am ddatblygu'r argymhelliad hwn gyda chefnogaeth gan CLILC a CNC.

Argymhelliad 7: Cynllunio Digidol

Mae gan ddefnyddio offer cynllunio digidol gan gynnwys deallusrwydd artiffisial, lle bo'n foesegol ac yn briodol, y potensial i ryddhau cynllunwyr i gynllunio, gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth, a defnyddio barn ac arbenigedd dynol ar sail gwerthoedd. Rhaid ei ymgorffori yng nghanol y system gynllunio yng Nghymru, yn hytrach na'i ystyried fel elfen atodol o ddarparu gwasanaethau. Dylid ei flaenoriaethu a'i gydlynu a dylai gael ei lywio gan anghenion cynllunwyr a defnyddwyr gwasanaeth. Bydd hyn yn gofyn am arweinyddiaeth a chydweithrediad cryf.

Dylai LIC (a fydd o fis Ebrill 2026 yn ymgorffori'r Ganolfan ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol), RTPI Cymru, CLILC a Phrifysgol Caerdydd fod yn gyfrifol am ddatblygu'r argymhelliad hwn.